

Y Fflint:

Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Fflint:

Deall Nodweddion
Trefol

Cydnabyddiaeth

Wrth gynnal yr astudiaeth hon, rhoddodd Cadw gymorth grant i Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys i baratoi adroddiad manwl ar archeoleg a hanes y Fflint, yn cynnwys diffinio a mapio ardaloedd â nodweddion ac asesu potensial archeolegol. Fersiwn olygedig o adroddiad yr Ymddiriedolaeth sy'n sail i'r drafodaeth ar hanes, tirwedd a photensial archeolegol y Fflint yn y cyhoeddiad hwn. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys. www.cpat.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	7	Nodweddion Adeiladu	21
Nodau'r astudiaeth	7	Cronoleg Adeiladu	21
		Patrymau Datblygiadau	22
Datblygiad Hanesyddol	9	Deunyddiau Adeiladu	24
Hanes Cynnar	9	Mathau o Adeiladau ac Arddulliau Adeiladu	26
Y Castell Canoloesol, y Dref a Chefn Gwlad	10		
Y Dref rhwng 1500 a 1700	12	Ardaloedd â Nodweddion	28
Twf y Dref yn y Cyfnod Modern	12		
– Twristiaeth	12	1. Mignen y Fflint	28
– Diwydiannu	13	2. Aber Park	28
– Adeiladu yn y Dref	15	3. Cornist Park	29
Ehangiad Trefol: 1900 ac ar ôl hynny	16	4. Castle Park	29
		5. Castell y Fflint	30
		6. Castle Dyke Street – Corporation Street	30
Tirwedd Hanesyddol	18	7. Canol y Dref	32
Cynllun y Dref Ganoloesol	18	8. Pen-Goch	34
Y Ffyrdd a'r Rheilffordd	19	9. Flint Sands	35
Y Dref yn Ehangu: Patrymau		10. Heol Caer	36
Datblygiadau yn yr Ugeinfed Ganrif	20	11. Pentre Ffwrndan	37
		12. Maes y Dre	37
		Datganiad Pwysigrwydd	39
		Ffynonellau	40
		Troednodiadau	42

Mapiau tudalennau 43–64

Ffiniau Lleoliadau a Chadwraeth

1. Ardal yr Astudiaeth
2. Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol

Mapiau Hanesyddol

3. Y Fflint yn 1610: John Speed
4. Y Fflint yn 1871: Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (25 modfedd)
5. Y Fflint yn 1912: Trydydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans (25 modfedd)
6. Y Fflint yn 1938: Pedwerydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans (6 modfedd)

Safleoedd Archeolegol a Hanesyddol

7. Safleoedd Cynhanesyddol, Rhufeinig a Chyfnod Canoloesol Cynnar yn y Fflint

8. Safleoedd Canoloesol yn y Fflint
9. Safleoedd Diwydiannol yn y Fflint

Ardaloedd â Nodweddion

10. Pob Ardal â Nodweddion
11. Mignen y Fflint
12. Aber Park
13. Cornist Park
14. Castle Park
15. Castell y Fflint
16. Castle Dyke Street – Corporation Street
17. Canol y Dref
18. Pen-Goch
19. Flint Sands
20. Heol Caer
21. Pentre Ffwrndan
22. Maes y Dre

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Nod nodweddu trefol yw disgrifio ac egluro cymeriad hanesyddol trefi i roi ffocws i natur unigryw leol a gwasanaethu fel ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cadwraeth ac adfywio cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio cymeriad hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi'r amrywiaeth o nodweddion ynddynt, gan gydnabod bod y nodweddion hyn yn hanfodol i natur leol unigryw a brogarwch, ac yn ased o ran gwaith adfywio. Mae'n ystyried sut y caiff hanes tref ei fynegi yn ei chynllun a'i thirwedd, mewn ardaloedd o botensial archeolegol, ac yn ei chymeriad archeolegol. Mae'r arolwg hwn yn fwy nag archwiliad o nodweddion yn unig, mae hefyd yn adlunio o'r themâu a'r prosesau sydd wedi llunio'r dref.

Cyd-destun uniongyrchol yr astudiaeth hon yw cyfraniad Cadw tuag at gynnig Cam Dau Cyngor Sir y Fflint i Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer sefydlu Menter Treftadaeth Treflun yn y Fflint. Rhagwelir y bydd y Fenter Treftadaeth Treflun yn datblygu cynlluniau adfywio presennol, gyda'r bwriad o wella'r dref yn ffisegol, denu ymwelwyr, a hyrwyddo buddsoddiad pellach a chreu swyddi newydd. Yn ogystal ag adfer adeiladau yn ffisegol, byddai'r arian hwn hefyd yn darparu ar gyfer rhaglen o arddangosiadau, sgysiau a phrosiectau ysgol wedi'u cynllunio i feithrin ymdeimlad o falchder, perthyn a chyfranogiad yn y gymuned ehangach. Er bod y Fenter Treftadaeth Treflun yn canolbwyntio ar Ardal Cadwraeth y Fflint, mae'r astudiaeth hon o nodweddion yn archwilio cymeriad hanesyddol holl ardal adeiledig y dref, gan osod yr ardal gadwraeth mewn cyd-destun ehangach, a rhoi llinell sylfaen ar gyfer cynllunio strategol yn ogystal â rheolaeth leol.



Castell a thref y Fflint.



Datblygiad Hanesyddol

Hanes Cynnar

*'The origin of the town, though undoubtedly remote, is involved in the greatest obscurity. Although it cannot be identified with any Roman station mentioned in the Itineraries, it was nevertheless either of Roman or Roman-British origin, as is proved by the circumstance of its even now occupying a rectangular intrenched area, like that of a Roman place of defence, and the discovery, at various times, both here and in the neighbourhood, of a vast quantity of Roman coins, fibulae, etc.'*¹

Mae hanes tref a chastell y Fflint a'u rôl yng ngoresgyniad Edward I yng Nghymru yn hysbys erbyn hyn, ond hyd nes i'r ffeithiau gael eu casglu ynghyd gan haneswyr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif nid oedd ar gof cyhoeddus. Yn hytrach, roedd cynllun rheolaidd y dref wedi arwain at gred ei bod o darddiad Rhufeinig.

Ceir tystiolaeth fod yr ardal lle mae'r maestrefi bellach yn arfer bod ym meddiant y Rhufeiniaid, ond dim ond canfyddiadau amhendiant a gafwyd o fewn tref y Fflint ei hun. Mae bodolaeth gweithfeydd prosesu plwm hynafol yn ardal Pentre Ffwrndan wedi bod yn hysbys ers diwedd y ddeunawfed ganrif o leiaf. Yn *A Tour in Wales*, mae Thomas Pennant yn cofnodi'r traddodiad 'that in very old times stood a large town at this place' a bod yno 'great quantities of scoria [cinders/slag] of lead, bits of lead ore, and fragments of melted lead' wedi cael eu hailddodi er mwyn adfer y plwm.² Mae hanes hir o anheddiad cynharach yn yr ardal hon. Wrth ysgrifennu am ardal Croes-ati yn 1574, nododd yr ysgolhaig John Dee 'in ancient tyme stode a town... now utterly defaced, no ruyn thereof or monument appearing'.³ Mae darganfyddiadau a wnaed yn yr ardal hon yn ystod y datblygiadau diwydiannol a datblygiadau tai o'r 1840au hyd heddiw yn cadarnhau yr arferai anheddiad diwydiannol Rhufeinig fodoli ar bob ochr i Heol Caer yn ardal Pentre Bridge, rhwng St Eglwys Dewi Sant a thafarn The Yacht. Ymysg y canfyddiadau ceir olion ffwrneisiau, adeiladau carreg a rhai phren yn ôl y tebyg yn ogystal â nifer o gyrff a gladdwyd. Roedd yr anheddiad yn weithredol o ganol yr 80au i ganol y drydedd ganrif

oc. Yn ddiweddar iawn, ymddengys fod canfyddiad gweddillion sianel lanw Rufeinig wedi'i chynnal gan waliau pren i'r dwyrain o The Yacht yn cadarnhau awgrymiadau cynharach yr arferid allforio'r plwm a brosesid yma dros y môr o lanfeydd ar hyd aber afon Dyfrdwy.

Datgelodd cloddiadau gyferbyn â Fferm y Pentre ar ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au hefyd gyfateilad o statws uchel yn dyddio o'r cyfnod rhwng dechrau'r ail ganrif a chanol y drydedd ganrif oc. Mae teils stampiedig yr Ugeinfed Leng, a ddisodlodd yr Ail Leng yng Nghaer tua 90 oc, yn awgrymu mai hwn o bosibl oedd cyfateilad preswyl a gweinyddol swyddog preswyl a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r diwydiant gwaith metel.

Yn yr un ardal, mae cloddiadau diweddar hefyd wedi datgelu darn o ffordd Rufeinig i'r de o The Yacht ym Mhentre Ffwrndan gyda dau ddarn o arian o ganol y drydedd ganrif ar ei arwyneb metlin. Yn y fan hon roedd y ffordd cymaint â 39 troedfedd (12m) o led efallai ac yn ffordd o gyfeiriad y ffordd fodern, gan dorri drwy'r anheddiad diwydiannol ym Mhentre Ffwrndan. Mae olion nesaf pendant y ffordd ger Rhuallt, tua 9 milltir (15km) i'r gorllewin, ac er y credid yn draddodiadol iddi ddilyn llinell yr A485 sy'n bodoli heddiw fwy neu lai, mae ei gwir lwybr islaw'r ardal lle y lleolir tref y Fflint heddiw eto i'w ganfod.

Ni wyddys llawer hyd yma am hanes cyffiniau cyfagos y Fflint yn y cyfnod o bron 800 mlynedd rhwng cyfnod diweddarach y Rhufeiniaid yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif a'r Goresgyniad Normanaidd yn yr unfed ganrif ar ddeg. Mae llawer o'r prif enwau llefydd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn yn dynodi'n glir bod y rhanbarth yn ffurfio parth â ffiniau diwylliannol a gwleidyddol cymhleth rhwng teyrnas y Cymry a theyrnas yr Eingl-Sacsoniaid a oedd yn datblygu gyda rhywfaint o ymdreiddiad gan anheddwyr Llychlynaidd o'r môr. Ceir awgrym o statws gwleidyddol ansefydlog a bregus y rhanbarth yn yr enw *Perfeddwlad* sef tiriogaeth a ymestynnai am ddeg milltir ar hugain ar hyd arfordir gogleddol Cymru rhwng Llandudno a Phenarlâg fel y'u gelwir heddiw. Gelwid y *cantref* neu'r ardal weinyddol lle y lleolir y Fflint yn Degeingl i'r Cymry ac Elgelfield

Gyferbyn: Castell y Fflint.

Castell a thref y Fflint — gellir gweld llinell y brif stryd ganoloesol yn y cefndir (Hawlfraint y Goron: CBHC).

i'r Eingl-Sacsoniaid, sy'n adlais o'r enw llwythol *Deceangli* cyn dyfodiad y Rhufeiniaid.

Y Castell Canoloesol, y Dref a Chefn Gwlad

Gellir dweud i hanes y Fflint fodern ddechrau pan greodd Edward I gastell a thref yma yn 1277. Fe'u sefydlwyd yn bennaf i wasanaethu fel canolfan ymgyrchu ar gyfer ailfeddiannu'r *Berfeddwlad*, tiriogaeth a oedd yn eiddo preifat i'r brenin ar hyd arfordir gogleddol Cymru, a gollwyd i Lywelyn, tywysog Cymru, yn 1256. Daeth y fyddin frenhinol o Gaer gan ennill eu plwyf yn y Fflint erbyn 21 Gorffennaf 1277. Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, daeth y rhyfel o'r diwedd i ben. O dan delerau cytuniad a luniwyd ar y pryd, parhaodd Llywelyn i reoli i'r gorllewin o afon Conwy, ond ildwyd y tiroedd i'r dwyrain i frenin Lloegr. Rhoddwyd ardaloedd mewndirol y *Berfeddwlad* i Dafydd, brawd Llywelyn, i ddiolch iddo am ei gymorth yn ystod y rhyfel. Cadwyd yr ardaloedd arfordirol, a oedd yn bwysicach yn strategol ac yn fasnachol o bosibl, gan frenin Lloegr, a aeth ati dros y pum mlynedd nesaf i ddatblygu ei diriogaethau a ailfeddiannwyd, yn cynnwys adeiladu cestyll yn y Fflint a Rhuddlan. Roedd y gwaith o adeiladu'r ddau wedi dechrau erbyn hydref 1277, ac roedd eu bwrdeistrefi caerog cysylltiedig eisoes yn bodoli erbyn gwanwyn y flwyddyn ganlynol pan oedd tir yn cael ei ddyrannu i'r mewnfudwyr Seisnig yn

Castell y Fflint, mewn lleoliad y gellid ei gyrraedd o'r môr.



bennaf a oedd yn cael eu hannog i ymsefydlu yn y dref. O'r dechrau, y strategaeth oedd adennill a chadw gafael ar y diriogaeth drwy adeiladu cestyll gyda threfi marchnad caerog a allai greu incwm drwy godi trethi. Er mwyn sicrhau diogelwch a hyrwyddo masnach, byddai modd cyrraedd y cestyll a'r trefi hyn o'r tir a'r môr.

Newidiodd y cynlluniau'n ddramatig gyda gwrthryfel y Cymry a ddechreuodd gyda'r ymosodiad ar Gastell Penarlâg gan Dafydd a Llywelyn ar Ddydd Sul y Blodau yn 1282. O ganlyniad, penderfynodd Edward ddod ag annibyniaeth y Cymry i ben a thros y tair blynedd ar ddeg nesaf, symudodd ffocws buddiannau milwrol a gweinyddol Lloegr a'r gwariant yng ngogledd Cymru am y tro olaf i'r gorllewin, a cholodd y Fflint a Rhuddlan eu pwysigrwydd milwrol.

Roedd y safle a ddewiswyd ar gyfer y castell a'r dref yn y Fflint yn ddarn o dir lle nad oedd llawer o bobl yn byw oedd yn ffinio ag aber yr afon ym mhlwyf hynafol Lloneurgain a dosbarth gweinyddol hynafol Cwnsyllt. Roedd y safle'n ymddangos yn un delfrydol: safai hanner ffordd rhwng Caer a Rhuddlan ac ni chymerai fwy na diwrnod i deithio yno o'r naill leoliad neu'r llall, dros dir neu ar y môr. Roedd penrhyn â brigiad creigiog ac unig a oedd yn ymwthio allan o draeth deheuol dinodwedd aber afon Dyfrdwy yn sail gadarn i'r castell. Y brigiad creigiog hwn yw tarddiad enw'r dref, sy'n ymddangos gyntaf fel *le Flynt neu le Flynd*, o'r gair Saesneg 'flint' mae'n debyg, sy'n golygu carreg neu graig galed.


Defnyddir cynllun integredig y castell a'r dref ganoloesol yn aml fel enghraifft glasur o gynllun canoloesol. Prin oedd y cyfyngiadau yn y safle cymharol wastad ac annatblygedig hwn ac o ganlyniad roedd y cynllun a ddatblygodd yn arloesol ac arbrol, gan roi darlun diddorol o'r hyn oedd ym meddwl y strategydd milwrol

canoloesol a'r cynllunydd tref oedd yn gyfrifol am y gwaith.

Tref y Fflint oedd y dref fwyaf cymesur o holl drefi newydd Prydain yn y canoloesoedd. Datgelodd gwaith arolwg diweddar y geometreg symbolaidd eithriadol sy'n amlwg yng nghynllun y dref a'r castell. Mae'r Tŵr Mawr, y neuadd farchnad ganoloesol, a'r eglwys — yn cynrychioli'r Goron, yr awdurdodau dinesig, a'r Eglwys yn y drefn honno — yn sefyll yn union ar linell sy'n rhannu'r dref ganoloesol.

Mae cynllun y dref ganoloesol yn hysbys yn rhannol o gynlluniau diweddarach ac yn rhannol o rywfaint o waith cloddio archeolegol, ond fe'i dangosir gliriaf ar fapiau John Speed: darlun o gaeau o 1607, wedi'i gadw yng Ngholeg Merton, Rhydychen; map mwy i gyd-fynd â'i fap o Sir y Fflint a ymddangosodd yn ei *Theatre of the Empire of Great Britaine* a gyhoeddwyd yn 1610/11; ac un llai sy'n ymddangos fel cartouche sy'n ffinio â'i fap o Gymru yn y gyfrol honno.⁴ Dengys y mapiau hyn bod y brif ffordd arfordirol — sy'n cyfateb i'r strydoedd modern Heol Treffynnon a Heol Caer — yn cael ei throesi ar onglau sgwâr gan grid o bedair ffordd gyfochrog, dwy ar bob ochr i'r llinell ganoloesol sy'n rhannu Tŵr Mawr y castell yn ddwy. Aliniwyd un o'r pedair ffordd gyfochrog — sy'n cyfateb i'r stryd fodern Heol yr Eglwys — â phorthdai wardiau mewnol ac allanol y castell ar un pen a'r brif ffordd i'r de o'r dref y pen arall. Roedd angen mynd drwy'r dref i gyrraedd y castell, a rhoddai hyn haen ychwanegol o amddiffyniad iddo. Dengys cynllun Speed nifer o ffyrdd a lonydd eraill, ychydig y tu mewn i'r clawdd mewnol ac ychydig y tu allan i'r clawdd allanol. Mae'n debyg bod y rhain yn gorchuddio'r cloddiau ganoloesol yn rhannol sy'n golygu eu bod o gyfnod diweddarach, ond mae angen gwaith cloddio pellach cyn y gellir cadarnhau hyn.

Gallai tystiolaeth sydd wedi'i chladdu o dan y ddaear o hyd hefyd ddweud llawer wrthym am y dref, y mathau o adeiladau a fodolai, a ffordd o fyw'r trigolion. Yr elfennau mwy pendant o'r dref ganoloesol yw eglwys y dref sydd wedi'i chysegru i Santes Fair, neuadd y dref, a'r farchnad, sef lleoliad neuadd y dref yn ddiweddarach. Roedd y dref wedi ymsefydlu erbyn dechrau 1278, pan gyhoeddwyd marchnad wythnosol a ffair flynyddol a phan benodwyd asiantau i rentu lleiniau o dir i ddarpar drigolion, er nad oedd yr amddiffynfeydd wedi'u cwblhau eto. Cafodd y dref ei siarter frenhinol



gyntaf, a roddodd freintiau bwrdeistrefol llawn a hawliau i dir, yn 1284.

Fodd bynnag, ymddengys nad oedd llawer o ddi-ddordeb yn y tenantiaethau, ac yn 1282 awdurdodwyd yr asiantau i rentu lleiniau yn y dref am ddim am ddeng mlynedd ac ar gyfradd ostyngol wedi hynny. Ni wyddys i ba raddau y daeth y Fflint yn dref adeiledig yn ystod y cyfnod ganoloesol. Dengys map Speed yn 1610 bod llawer o leiniau gwag yn y dref, ond ni wyddys a yw hyn yn dangos eu bod wedi'u gadael yn wag neu a fethwyd eu datblygu.

Bu ond y dim i'r Fflint ddi-ddordeb trychineb yn 1294, pan roddwyd y dref ar dân yn fwriadol ar orchymyn cwnstabl y castell yn ystod gwrthryfel y Cymry yng ngogledd Cymru dan arweiniad Madog ap Llywelyn. Bwriad y cam eithafol hwn oedd diogelu'r castell ac atal y Cymry rhag dwyn gwarchae arno. Dinistriwyd saith deg tri neu fwy o

Castell a thref y Fflint, mewn map gan John Speed yn 1610 (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

adeiladau yn ôl pob tebyg: pob adeilad yn y dref efallai, ac eithrio'r eglwys o bosibl. Digolledwyd pobl y dref ac ailadeiladwyd y tai, er na wnaeth y digwyddiad ryw lawer i annog newydd-ddyfodiaid i ymgartrefu yn y dref.

Roedd angen tir ar drigolion y dref newydd at ddibenion amaethyddiaeth, ac o fewn ffiniau'r fwrdeistref ganoloesol, cliriwyd tir yn systemataidd i greu caeau agored. Goroesodd amlinellau patrwm y caeau hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'u cofnodwyd ar fap y degwm yn 1839. Ar y map hwn gwelir y Fflint yn cael ei hamgylchynu ar yr ochr tua'r tir gan batrwm grid penodol o gaeau hir yn rhedeg i fyny ac i lawr llethr y bryn ac yn amlwg wedi'i gosod mewn perthynas â'r dref ganoloesol. Adeiladwyd dros lawer o'r caelun hwn wrth i'r dref ddatblygu fel anheddiad diwydiannol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, ond mae rhywfaint o batrwm gwreiddiol y caeau wedi goroesi i'r de o'r dref. Mae ambell i fan gwyrdd a phatrwm y llwybrau troed a ffyrdd fel Coed Onn Road/Allt Goch wedi ffosileiddio'r patrwm o fewn ffin fodern yr anheddiad.

Y Dref rhwng 1500 a 1700

*'The houses are thatched and have stone walls but so decayed that in many places ready to fall down':*⁵

Dengys darlun caeau John Speed o'r Fflint yn 1607 bod tua chant o adeiladau y tu mewn i'r amddiffynfeydd, yn cynnwys neuadd y dref a'r eglwys, yn ogystal â nifer o adeiladau ar is-lonydd yn union y tu ôl i'r rhagfur mewnol. Roedd y dref y tu mewn i'r amddiffynfeydd canoloesol yn bennaf o hyd, ond dangosir bod tua phymtheg o adeiladau eraill ychydig y tu allan iddynt: mae rhai ar lonydd sy'n ymylu ar y rhagfur allanol ond mae'r rhan fwyaf yn agos at y tair prif fynedfa sy'n arwain allan o'r dref. Caiff masnach ei symboleiddio gan groes y farchnad a ddangosir yn y sgwâr canolog a chyfiawnder gan y cyffion a'r crocbren i'r gogledd-orllewin (yn agos mae'n debyg at y draethlin yn yr ardal lle mae Ystad Ddiwydiannol Castle Park erbyn hyn). Cysylltiad barnwrol arall yw'r Sessions House ar Heol yr Eglwys a adeiladwyd gyntaf ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg mae'n debyg. Goroesodd eglwys ganoloesol y Santes Fair nes i eglwys newydd gael ei hadeiladu yn yr un lleoliad

yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n debyg mai adeilad o'r unfed ganrif ar bymtheg oedd rhagflaenydd neuadd bresennol y dref. Fel arall roedd y dref yn dal i edrych fel pentref, gyda rhai adeiladau dinesig neu ddiwydiannol amlwg eraill, a thua hanner y tir adeiladu posibl yn cael ei ddefnyddio fel caeau, gerddi a pherllannau mae'n debyg.


O fewn ychydig ddegawdau i'r darlun caeau hwn, roedd ffyniant y Fflint ar i lawr: ysbeiliwyd y castell a'r dref sawl gwaith yn ystod y Rhyfel Cartref. Ar ôl y rhyfel ar ddechrau'r 1650au, dyma oedd disgrifiad digalon John Taylor: 'Surely war hath made it miserable; the sometimes famous castle... is now almost buried in its own ruins, and the town so spoiled that it may truly be said of it, that they never had any market (in the memory of man). They have no sadler, Taylor, weaver, brewer, baker, botcher, or button maker; they have not so much as a signe of an alehouse'.⁶

Twf y Dref yn y Cyfnod Modern

Mae disgrifiadau o'r ddeunawfed ganrif yn awgrymu bod y Fflint yn lle bach a di-nod o hyd. Dywedodd Defoe, 'so small that it has not a market, therefore little more than a village, with the trappings of a shire town'.⁷ Nododd Thomas Pennant, y byddai ei gysylltiadau lleol wedi peri iddo fod yn gydymdeimladol o bosibl, ei fod yn 'a place laid out with great regularity, but the streets being far from completed'.⁸ Dywedodd Henry Wynndham 'it is scarcely worth the travellers while to visit the poor town of Flint'.⁹

Twristiaeth

O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd arwyddion cyntaf adfywiad. Rhwng y 1780au a'r 1840au magodd y Fflint enw da dros dro fel cyrchfan glan y môr ffasiynol. Yn ôl *The Traveller's Companion through North Wales* yn 1800, 'the town of Flint has been much frequented of late years in the bathing season'.¹⁰ Mae llyfr Samuel Lewis a gyhoeddwyd yn 1833 sef *A Topographical Dictionary of Wales* yn sôn bod y dref, er ei bod yn 'very inferior in appearance' ac yn meddu ar 'few recommendations as a place



Y Fflint ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y'i darluniwyd gan Henry Gastineau (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

of residence', serch hynny yn 'convenient situation for sea-bathing, which attracts a considerable resort of company during the summer months... For the accommodation of persons who visit if for the benefit of the waters hot baths have been constructed on an extensive scale, and are provided with every requisite accommodation.'¹¹

Ceir cyfeiriad at y baddondai, a arferai fod yn Y Bardyn ychydig i'r de-ddwyrain o'r castell, hefyd yn *Cambrian Mirror, or A New Tourist Companion through North Wales* gan Edward Parry a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1843. Mae'n dweud ei bod yn daith braf neu 'a very pleasant sail' i'r dref dros y môr o Gaer, ac mae'n nodi 'a great number of people from Chester avail themselves of this opportunity, to take their families to Flint during the bathing season, where lodgings and every accommodation may be had at very reasonable rates... The air is salubrious and the surrounding scenery beautiful. The walks in the neighbourhood — particularly the one down the cop to meet the tide — are invigorating. A new and splendid Town Hall has lately been erected... and in one of the rooms there is a billiard table for the amusement of strangers.'¹²

Ond o ddiwydiant y daeth y ffyniant yn bennaf, a hynny ar draul twristiaeth yn y pen draw. 'Flint is a nauseous town with old houses and the noxious fumes of chemical works', meddai teithiwr

yng Nghymru yn 1833.¹³ Mynegwyd safbwynt tebyg yn y *Chester Chronicle* yn 1879: 'At the best of times Flint does not wear a very attractive appearance, being generally enveloped in a halo of sulphurous smoke'.¹⁴ Effeithiodd dyfodiad y rheilffordd yn 1848 hefyd yn andwyol ar dwristiaeth yn y Fflint, oherwydd bod traethau Prestatyn, y Rhyl a Llandudno bellach o fewn cyrraedd ymwelwyr o Gaer a threfi Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Diwydiannu

Diwydiannu oedd yr hyn a wnaeth i'r dref ffynnu, gan drawsnewid yr hyn nad oedd yn fwy na phentref bach ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, yn dref ddiwydiannol fodern erbyn canol yr ugeinfed ganrif. Yr ysgogiad cychwynnol ar gyfer y twf hwn oedd y gordefnydd a wnaed o ddyddodion plwm a glo yn lleol, ond arweiniodd proses hir o arallgyfeirio at ddiwydiannau cemegau a thecstiliau mawr yn seiliedig ar ddeunyddiau wedi'u mewnfario sef prif gynheiliad economi'r dref yn yr ugeinfed ganrif.

Byrhoedlog oedd llawer o'r diwydiannau cynharach, ac wrth i bob cenhedlaeth olynol glirio'r hyn a oedd yno'n flaenorol er mwyn dechrau o'r newydd, prin yw'r arwyddion amlwg bellach o'r hanes diwydiannol cyfoethog sydd wedi'i gladdu o dan sawl rhan o'r dref. Ni cheir



Bythynnod cynhenid diwydiannol yn Mount Pleasant, a oedd yn gysylltiedig â phyllau glo cyfagos yn ôl pob tebyg.

olion uniongyrchol cloddio am lo hyd yn oed, yr oedd hanes hir iddo yn yr ardal, er mai hen byllau glo yn ardal Mount Pleasant i'r de o'r dref oedd yn gyfrifol mae'n siŵr am y grŵp o fythynnod yno.

Yn yr un modd, ni cheir unrhyw olion uniongyrchol o waith prosesu plwm, ond gellir olrhain yr hanes o'r gwaith toddi a adeiladwyd i ddechrau ger Swinchiard Brook ar lan yr aber yn 1699. Yn y diwedd fe'i disodlwyd gan ffatri yn cynhyrchu alcali a chlorid o galch sef un o'r gweithfeydd mwyaf o'i fath yn y byd yn ôl y sôn. Fe'i gelwid yn Castle Works, a safai o fewn safle Ystad Ddiwydiannol Castle Park heddiw.

Gellir olrhain hanes Ystad Ddiwydiannol Aber Park fel y'i gelwir heddiw hefyd. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefydlwyd melin bapur yma: sef y tresmasiad sylweddol cyntaf gan ddiwydiant ar hen gaeau agored canoloesol y dref. Fe'i newidiwyd yn ffatri tectstiliau gan gwmni o'r Almaen yn negawd gyntaf yr ugeinfed ganrif, a gaeodd ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 1917 cymerwyd y ffatri tectstiliau drosodd gan Courtaulds a'i hailenwi'n Aber Works. O ganlyniad, ehangodd y cwmni gan gymryd drosodd y gwaith alcali i'r gorllewin o Gastell y Fflint, lle yr agorwyd ffatri newydd, Castle Works, yn 1920. Ynghyd ag Aber Works, bu'n gweithgynhyrchu reion fiscos. Yn 1927, cymerodd Courtaulds Felin Dyfrdwy drosodd, sef hen waith nyddu cotwm arbrofol, ar gyfer prosesu edafedd.

Ar ei anterth cyflogai Courtaulds filoedd o weithwyr, ond oherwydd cystadleuaeth gynyddol

bu'n rhaid cau'r ffatri a cholodd sawl un eu swydd. Caedd Aber Works ar ddiwedd y 1950au, caedd Castle Works yn y 1970au a chaeodd Deeside Works yn yr 1980au. Gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru dymchwelwyd ffatrioedd y Courtaulds ac adeiladwyd unedau ffatrioedd llawer llai ar y safleoedd, sef Ystad Ddiwydiannol Aber Park ac Ystad Ddiwydiannol Castle Park. Denodd telerau arbennig ddiwydiannau newydd i'r Fflint, yn cynnwys cynhyrchion gofal iechyd a hylendid yn yr 1980au a phrosesu bwyd yn y 1990au. Adeiladwyd Melin y Fflint, Melin Coleshill a Melin Delyn ar safle tir glas lle yr arferai Coleshill Farm fod i'r gogledd-orllewin o'r dref. Ar yr un pryd, roedd cynnydd yn nifer y cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiannau hamdden, gwasanaeth a manwerthu yn cynnwys Parc Manwerthu newydd Sir y Fflint ar gyrion y dref.

Daeth diwydiannau eraill i'r amlwg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, naill ai yn gwasanaethu'r prif gwmnïau, neu'n manteisio ar y system drafndiaeth fwy dibynadwy a ddaeth yn sgil dyfodiad y rheilffordd yn 1848. Ymysg y rhain roedd gwaith haearn mawr a oedd yn rhannol orchuddio ffos y castell ac yn ffinio â muriau'r castell, ond mae hwn hefyd wedi hen ddiflannu.

Er nad oes llawer o nodweddion yn bodoli sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r hanes diwydiannol hwn, mae twf cyflym iawn y dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar hyd yr ugeinfed ganrif yn dystiolaeth anuniongyrchol ohono. Diwydiant arall a ddylanwadodd ar gymeriad y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y diwydiant gweithgynhyrchu deunyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd i'w hadeiladu.

Daeth calch ar gyfer mortar o odynau gan ddefnyddio calchfaen a glo lleol. Roedd y rhain yn weithredol yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd Old London Road mewn ardal o erddi modern ger Kingsbury Close, ac mewn llain o dir heb ei ddatblygu ger Halkyn Road gyferbyn â Tair Derwen.

Roedd galw cynyddol am frics, ar gyfer tai ac ar gyfer adeiladu ffatrioedd. Rhwng y 1840au a'r 1880au roedd nifer o iardiau brics cymharol fach gydag odynau gwneud brics sy'n llosgi glo yn gweithredu o amgylch y dref, yn gweithio o ddyddodion rhewglai a elwid yn farl brith porffor. Cynhyrchai'r iardiau brics cynharach frics a theils a wnaed â llaw ond yn ddiweddarach roedd rhai

wedi cyflwyno mecanwaith gan ddefnyddio peiriannau stêm. Roedd rhai ohonynt yn gweithio mewn cydweithrediad â phyllau glo, a ddarparai danwydd a deunyddiau. Er enghraifft, bu Gwaith Brics a Theils y Fflint ar Halkyn Road yn gweithredu rhwng tua 1840 a 1880, a defnyddiai siâl hindreuliedig yn ei gynnyrch o domenni rwbwl Pwll Glo Dee Green cyfagos. Roedd iard frics lai o faint arall yn gysylltiedig â phwll glo a weithredai yn agos at gyffordd Ffordd Llanceurgain a Coed Onn Road tua'r un cyfnod. Roedd yr ail waith brics mwyaf yn y Fflint, a weithredai o ddechrau'r 1870au i ddechrau'r 1890au, yn gysylltiedig â phyllau clai yn ardal y rhandiroedd sy'n bodoli heddiw oddi ar Rodfa Tywysog. Bu iard frics arall ar Heol Caer, yn yr ardal lle mae'r orsaf dân a'r unedau diwydiannol heddiw, yn gweithredu rhwng y 1850au a'r 1880au, ar safle hen Bwll Glo Bath. Roedd iardiau brics eraill wedi'u lleoli i'r de o Marsh Farm ac ym Mhentre Ffwrndan, i'r dwyrain o ganol y dref, ac ar hyd Coed Onn Road/Allt Goch. Gyda chystadleuaeth gan weithfeydd brics mwy o faint ymhellach i ffwrdd, nid ymddengys fod yr un o'r gweithfeydd lleol wedi parhau i weithredu ar ôl diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond gellir olrhain eu cyfraniad at liw a gwedd y dref o hyd.



Adeiladu yn y Dref

Yr adeiladau yw'r dystiolaeth orau o'r newid er gwell yn ffyniant y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oes llawer o adeiladau sy'n dyddio o gyfnod cyn 1800 wedi goroesi, ond ceir llawer sy'n dyddio o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig ar ochr ogledd-orllewinol Heol yr Eglwys. Mae gan rai nodweddion datblygu trefniedig, gyda dyfodiad terasau i'r dref. Ceir adeiladau sy'n dyddio o'r cyfnod hwn ar Heol Caer hefyd.

Er hyn, araf oedd yr adfywiad trefol i ddechrau mae'n debyg. Yn 1831, nodwyd 'the town has now sunk into utter insignificance, except as a secondary bathing place. It however deserves a better fate, as its air is exceedingly salubrious, its surrounding scenery very beautiful, and its beach tolerably good. To its unfavourable situation as an assize and market town is alone to be attributed its present dearth of business and deserted appearance'.¹⁵ Eto yn 1833, nododd Samuel Lewis 'the buildings are, notwithstanding, very inferior in appearance to what might be expected from the regularity with which the streets are disposed'.¹⁶ Yn 1836, 'The town of Flint... has all the appearance of a fallen and deserted capital, possessing evidence of its former extent and importance in long lines of broken streets and half-dilapidated edifices'.¹⁷ Hyd yn oed yn 1872, nododd *Black* yn y *Picturesque Guide to North Wales* bod y strydoedd 'so broken by dilapidated walls and partially removed old houses as to have a

Teras ar Heol yr Eglwys — mae'r amrywiaeth o fanylion diweddarach yn cuddio ei natur unffurf.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tref frics oedd y Fflint, a gyflenwyd gan iardiau brics brodorol nes i'r defnydd o ddeunyddiau a fewnforiwyd ddisodli'r arfer hwnnw.

ragged and repulsive aspect'.¹⁸ Ond ar ôl sefydlu corfforaeth, crëwyd symbol amlwg o optimistaeth pan adeiladwyd neuadd y dref newydd yn 1840.

Hyd yn oed ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd llawer o fannau agored ar gael o hyd o fewn ffiniau'r dref ganoloesol. Er enghraifft, ni ddatblygwyd ochr dde-ddwyreiniol Heol yr Eglwys rhyw lawer tan ddiwedd y ganrif. Fodd bynnag, erbyn hyn roedd twf diwydiant yn arwain at fewnlifiad cyflym o niferoedd mawr o weithwyr i'r dref: tyfodd y boblogaeth fwy na phedair gwaith drosodd o ffigur o ychydig dros fil yn 1801 i ychydig o dan bum mil yn 1891.

Hyd at y 1870au a'r 1880au, roedd gwahaniaeth clir rhwng y dref a'r wlad: roedd y tai ar gyfer y boblogaeth gynyddol hon yn bennaf wedi'u cyfyngu o hyd i ganol y dref ganoloesol a'r lonydd a grëwyd uwchlaw'r amddiffynfeydd canoloesol ac ychydig y tu allan iddynt. Er gwaethaf ei statws parhaus fel tref sirol, datblygodd y Fflint bron yn llwyr fel anheddiad ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio, gyda llawer o fythynnod o safon wael yn aml mewn terasau ar hyd strydoedd a lonydd y dref ganoloesol. Diflannodd y rhain i gyd o ganlyniad i raglenni gwella'r ugeinfed ganrif. Prin oedd y plastai trefol mwy o faint a phrin, os o gwbl, oedd unrhyw siopau ffasiynol.

Ehangiad Trefol: 1900 ac ar ôl hynny

*'A town designed, redesigned and developed for people to live in.'*¹⁹

Yn ystod degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ehangodd y dref y tu hwnt i'w therfynau hanesyddol am y tro cyntaf. Adeiladwyd blociau o dai teras ar hyd y prif ffyrdd i mewn i'r dref. Adeiladwyd terasau ac ystadau llai o fythynnod gweithwyr hefyd yn ardaloedd Knights Green a Park Avenue i'r de o Heol Caer ychydig y tu allan i ganol y dref ganoloesol. Dyma'r enghreifftiau pwysicaf cyntaf o dresmasu ar gaeau agored canoloesol blaenorol y dref.

Er iddo gael ei glirio'n ddiweddarach (er enghraifft, y datblygiad ar hyd Holywell Road), gellir gweld yr ehangiad hwn yn glir o hyd yn y gwaith adeiladu, gyda therasau nodweddiadol o dai brics coch y mae eu manylion tebyg yn awgrymu cyflymder y broses adeiladu o amgylch 1900. Mae hefyd yn amlwg i lawer o waith adeiladu gael ei wneud: ailadeiladwyd The Dee Inn ac adeiladau eraill yn y dref, a rhoddwyd wyneb newydd ar rai eraill.

Cyflymodd y gyfradd datblygu tai rhwng y ddau ryfel, gan barhau â'r broses o dresmasu ar gaeau



Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd y Fflint ehangu, ar hyd y prif ffyrdd a arweiniai i mewn i'r dref i ddechrau.

agored canoloesol i'r de a'r de-orllewin o ganol y dref. Mae'n debyg i'r datblygiad hwn gael ei ysgogi gan dwf cyflym y diwydiant cemegion, ac yn enwedig dyfodiad Courtaulds yn 1917. Roedd y cwmni'n uniongyrchol gyfrifol am adeiladu rhai tai: mae'r datblygiad cynlluniedig ar Thomas Street sydd wedi goroesi yn dyddio o'r cyfnod hwn (tua 1920), ynghyd â'r tai ar Henry Taylor Street, a Dee Cottages a adeiladwyd yn agos iawn at ei gilydd. Mewn manau eraill yn y dref, dengys yr adeiladau sydd wedi goroesi fod y 1920au a'r 1930au yn gyfnod prysur iawn. Adeiladwyd ystadau tai awdurdod lleol mawr yn y gornel rhwng Ffordd Lloneurgain a Coed Onn Road a rhwng Heol Caer a Pen Goch Hill. Adeiladwyd llawer o adeiladau hapfasnachol hefyd, yn ogystal â rhai tai a gomisiynwyd, yn enwedig yn ardal Ffordd Lloneurgain. Mae prosiectau adeiladu eraill hefyd yn awgrymu cyfnod cydlynol o fuddsoddi yn y dref: ailadeiladwyd sawl tafarn yn y 1920au a'r 1930au, ac mae'r ganolfan gwaith, y sinema a'r swyddfa bost i gyd yn dyddio o'r cyfnod hwn.

Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd mae ystadau tai awdurdodau lleol a phreifat wedi parhau i ehangu: i'r de-orllewin cyn belled â Phentre Ffwrndan; i'r de o Coed Onn Road i'r de-ddwyrain o'r dref; ac yn y gornel rhwng Halkyn Road ac Old London Road i'r de-orllewin. Defnyddiwyd rhan fawr o gaeau agored canoloesol y dref ar gyfer hyn. Hefyd yn y cyfnod hwn, gwnaed llawer o waith clirio ac ailddatblygu yn y dref ganoloesol a'r cyffiniau. Newidiwyd cynllun cynnar y dref am y tro cyntaf gan floccydrau a fflatiau concrid, ond nododd y cyngor ar y pryd eu bod yn symbolau amlwg hen dref yn cael ei throï yn un newydd.²⁰ Ymysg yr arwyddion eraill o fuddsoddiadau o'r cyfnod yn union ar ôl y rhyfel mae'r rhodfa o siopau ar Heol Caer, y Courthouse a'r Guildhall — adeilad gwych ac urddasol yn ôl cyhoeddiad gan y cyngor yn 1968 — a ddymchwelwyd yn ystod haf 2008.²¹

Yn ystod y cyfnod hwn, hyrwyddwyd y Fflint fel enghraifft o waith cynllunio blaengar a modernedd pragmatig. Yn y Traveller's Companion yn 1968 disgrifir y dref fel lle i fyw ynnddi yn bennaf: 'Ten years ago Flint gave the impression of a town trying to struggle out of its rather nondescript dress, a bright new town striving to be born. Today that town is emerging, like a bright butterfly from its chrysalis, with splendid new buildings rising from the sites where old properties which were no



Uchod: The Dee Inn — wedi'i hailadeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'n arwydd o ffyniant cynyddol y dref yn y cyfnod hwn.



Chwith: Henry Taylor Street. Arweiniodd dyfodiad Courtaulds at fuddsoddiadau newydd mewn tai o amgylch 1920.



Chwith isod: Dee Cottages, datblygiad tai cynlluniedig a oedd yn gysylltiedig â dyfodiad Courtaulds.

longer sound have been taken down'. Cyfeiriodd hefyd at 'Flint's most sensational development project, the two white skyscrapers which dominate the town and stand out above every other landmark'.²²

Tirwedd Hanesyddol

Cynllun y Dref Ganoloesol

Gellir olrhain cynllun y dref ganoloesol yn strwythur y Fflint o hyd, sydd wedi cadw geometreg gref, er gwaethaf rhywfaint o ddifrod. Mae Heol yr Eglwys, Sydney Street, a'r rhan fwyaf o linell Feathers Street (sy'n parhau i'r gogledd-ddwyrain o'r rheilffordd fel Salusbury Street) wedi goroesi fel tair o brif strydoedd y dref ganoloesol, ond cafodd y bedwaredd, Mumforth Street, ei dymchwel er mwyn datblygu tai yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Mae llinell Lôn y Capel, Coleshill Street, Earl Street, Evans Street, Castle Street a Duke Street yn dilyn perimedr y dref ganoloesol, ac mae echel Heol yr Eglwys yn cynrychioli'r brif stryd wreiddiol (lletach na'r strydoedd cyfochrog eraill). Mae safle presennol neuadd y dref yn nodi lleoliad y farchnad wreiddiol. Mae Heol Caer a Heol Treffynnon yn dilyn llinell y stryd drwodd wreiddiol, er i rai newidiadau gael eu gwneud i'w haliniad a'i lled.

Fodd bynnag, yn y bôn mae'n anodd gwerthfawrogi terfynau'r dref ganoloesol, yn enwedig i'r gogledd-orllewin, lle mae'r ffordd lydan yn Raven Square a'r ardal wag tua'r de-ddwyrain wedi chwalu unrhyw ymdeimlad o ffin.

Efallai na fu'r Fflint ganoloesol yn llwyr adeiledig erioed, a thref fach ydyw o hyd. Er nad yw'n glir i ba raddau y mae ffiniau eiddo presennol yn adlewyrchu bwrdeisi canoloesol, gellir nodi canol y dref o hyd oherwydd strwythur cryf o leiniau, a fu'n fframwaith ar gyfer datblygu yn y cefnwledydd. Mae'r datblygiad hwn i gyd bron yn berthnasol i'r adeiladau blaen, ac er mai estyniadau a wnaed yn ystod yr ugeinfed ganrif yw rhai ohonynt, ceir rhai enghreifftiau sydd wedi goroesi o adeiladau atodol ac iardiau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft yn The Dee Inn, The Swan Hotel, The Royal Oak, a Rhifau 36–38 Heol yr Eglwys.

Dde: Adeiladau gwasanaethu o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u cadw mewn iard y tu ôl i Heol yr Eglwys.

Dde isod: Adeiladau allan o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr iard y tu ôl i The Swan Hotel.

Isod: Safle mynediad i'r dref drwy ei hamddiffynfeydd canoloesol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Y Ffyrdd a'r Rheilffordd

Nododd dyfodiad y rheilffordd yn 1848 ymyriad radical iawn yng ngeometreg wreiddiol y dref, gan dorri drwy ei chanol. Ni chafodd ei dyfodiad groeso mawr gan y cyngor, gan eu bod yn gwybod y byddai'n rhannu'r dref yn ddwy ran. Gwrthododd y cwmni rheilffordd eu cais i adeiladu traphont, gan addo y byddent yn adeiladu 'gorsaf o'r radd flaenaf'.²³ Mae'r orsaf, heb os, o'r radd flaenaf, ond mae llinell y rheilffordd, gyda'r muriau cerrig sy'n ei hamddiffyn, yn datgysylltu'r castell a sector gogledd-ddwyreiniol y dref i ffwrdd, gan greu maestref i bob pwrpas, gyda'r rheilffordd yn gweithredu fel ffin newydd ar gyfer canol y dref. Perswadiodd y dref y cwmni rheilffordd i greu stryd newydd yn gyfochrog â'r traciau i'r gogledd-ddwyrain (roedd yr enw, Corporation Street, yn coffáu balchder dinesig), a datblygodd yr ardal gyda llawer o dai crefftwy'r bach, gan ei bod yn agos at y gwaith cemegion a oedd yn cael ei ehangu. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y lle hwn, roedd llawer o fannau agored o hyd.

Er creu Corporation Street, parhaodd y patrwm stryd canoloesol yn yr ardal hon i gynnwys datblygiad trefol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, chwalwyd hyn gan waith ailddatblygu ar ddechrau ac yng nghanol yr ugeinfed ganrif, pan ddinistriwyd y ddwy stryd i'r de-ddwyrain gan New Roskell Square, gan gadw darn byr yn unig o'r hen Farmers Lane. Bellach, mae Salisbury Street a Castle Street yn nodi llinellau strydoedd canoloesol, ac mae Evans Street a Castle Road yn nodi perimetr y dref ganoloesol. Eisoes, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, newidiwyd geometreg anhyblyg y cynllun canoloesol drwy godi adeiladau ar aliniadau gwahanol: codwyd rhesi o adeiladau ar onglau sgwâr i brif echel y dref yn Roskell Square. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, datblygwyd cyfres o resi cyfochrog rhwng Evans Street a Salisbury Street, a pharhaodd datblygiad diweddarach i ddilyn yr aliniad amgen hwn. Mae gan yr ardal hon ei geometreg ei hun a'i chymeriad ei hun bellach.

Os oedd cynllun y dref ganoloesol yn cynnwys llawer o ddatblygiad trefol y Fflint hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, echel gyfyngedig a gynigiai llwybrau i mewn i'r dref ar gyfer twf y tu allan iddi. Roedd y clystyrau bach o fythynnod o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Ffordd Llaneanrain (a adeiladwyd gyda rhywfaint o dywodfaen haen lo) yn gysylltiedig â'r pyllau glo mae'n debyg, ac roeddent



Uchod: Mae cynllun tai o'r ugeinfed ganrif yn nodweddu'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r rheilffordd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Gwaith ehangu cynnar ar hyd Heol Caer.

Isod: Park Avenue, un o'r strydoedd newydd cyntaf i gael ei chynllunio wrth i'r Fflint ehangu y tu hwnt i'w therfynau canoloesol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

wedi'u gwahanu oddi wrth y dref hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, pan grëwyd llinell adeiladu yn raddol a oedd bron yn llinell barhaus o ganlyniad i'r datblygiad hirgul tameidiog ar hyd llinell y ffordd. Bu llawer o waith datblygu ar Heol Caer hefyd, wrth i derasau bach gael eu hadeiladu bob hyn a hyn ar hyd ei llinell cyn belled â Phentre Ffwrndan. Yn ardal Heol Caer hefyd y gwelwyd y datblygiad newydd systemataidd cyntaf, wrth i strydoedd newydd gael eu sefydlu i'r de-orllewin o'r ffordd. Dymchwelwyd y cyntaf o'r rhain (Princes Street a Queen Street) pan wnaed gwaith ailddatblygu yng nghanol yr ugeinfed ganrif, ond mae Park Avenue wedi goroesi, a'i ffiniau

yn dilyn y patrwm caeau canoloesol yn ôl pob tebyg.

Y Dref yn Ehangu: Patrymau Datblygu yn yr Ugeinfed Ganrif

Dde: Newidiodd datblygiadau tai o ganol yr ugeinfed ganrif y geometreg ganoloesol gan gyflwyno cynlluniau newydd mentrus (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Sefydlodd prosiectau tai ar raddfa fawr yn ystod yr ugeinfed ganrif batrymau datblygu newydd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Yn aml nid oedd gan ddatblygiadau yn ystod yr ugeinfed ganrif gysylltiad clir o gwbl â thirwedd hanesyddol sylfaenol. Roedd maint rhaglenni adeiladu tai hapfasnachol ac awdurdodau lleol yn golygu y gellid sefydlu patrymau stryd hollol newydd. Yn y dref ganoloesol, roedd y datblygiadau tai newydd yn diystyru'r geometreg wreiddiol, gyda blocdyrau wedi'u halinio ar letraws i'r brif echel (ac wedi'u halinio'n groes i'r eglwys a adeiladwyd ar letraws). Mae gan ardal The Mumforth Walk ei geometreg ei hun. Roedd y cynllun yn agwedd bwysig ar ddatblygiadau tai cyhoeddus ar ôl y rhyfel, ac mae ardal Knights Green yn enghraifft arall o hyn.

Ymhellach i ffwrdd o ganol y dref, sefydlodd ystadau tai, boed yn dai cyhoeddus neu breifat,

ffurfiau newydd ar gynllunio ar y patrymau caeau cynharach. Yn aml nid oedd nodweddion presennol yn cyfyngu ar gynllun strydoedd, er bod Coed Onn Road ac Allt Goch yn dilyn ffiniau a thraciau cynharach, a chynrychiolir llinell hen ffin cae arall yn fras gan y ffin y tu cefn i'r adeiladau ar ochr ogledd-ddwyreiniol Rhodfa Tywysog. Roedd y cynlluniau'n amrywio o gridiau strydoedd, i'r cilgantau a'r cylchoedd a ffefrid yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel, a chynllun mwy tameidiog



Nodweddion Adeiladu

diwedd yr ugeinfed ganrif.

Cronoleg Adeiladu

Ac eithrio'r castell, nid oes unrhyw adeiladau cynnar wedi goroesi o fewn y dref. Mae'n debyg mai fframiau pren oedd i'r adeiladau cynnar, cyn i'r defnydd o garreg ddod yn gyffredin yn yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif. Un o'r adeiladau pren olaf i oroesi oedd neuadd y dref neu neuadd y farchnad mae'n debyg, adeilad cymharol isel â hanner ohono wedi ei adeiladu o bren o ddiwedd yr unfed ganrif am bymtheg, a gollwyd pan godwyd adeilad yn ei le yn 1840.

Yn yr un modd, prin iawn yw'r adeiladau cerrig cynnar sydd wedi goroesi yn y dref, er bod gan ddau adeilad ar Heol yr Eglwys dalcenni yn wynebu'r stryd, a all olygu eu bod yn dyddio o gyfnod cyn y ddeunawfed ganrif. Ceir rhai olion o furiau cerrig mewn mannau eraill, ym muriau cefn adeiladau ar Heol yr Eglwys (rhifau 22–28) a Heol Caer (rhifau 17–19), er enghraifft, ac yn rhai o'r ffiniau sy'n rhedeg yn ôl o Heol yr Eglwys. Prin iawn yw'r dystiolaeth o nodweddion cynhenid y dref, ond ceir rhai cyfeiriadau at y defnydd o doean gwellt. Er enghraifft, man cwrdd cyntaf y Methodistiaid Wesleiaidd yng Nghymru oedd mewn tŷ yn Swan Lane: 'this small thatched house is one of the few relics of the old town left', yn ôl Henry Taylor yn 1883.²⁴ Mae golygfa o'r dref o Allt Goch a gymerwyd tua 1840 hefyd yn dangos bwthyn to gwellt ar waelod y lôn.

Mae'r cyfnodau adeiladu yn dangos cyfnodau buddsoddi sy'n gysylltiedig â thwf economaidd ac yn dangos y Fflint yn datblygu i amlygrwydd economaidd o ddechrau araf ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at ganol y ganrif honno i gyfnod mwy pendant o ffyniant ar ddiwedd y ganrif honno a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ar Heol yr Eglwys ceir adeiladau sydd wedi goroesi o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf, er bod rhai olion o'r cyfnod hwn mewn adeiladau ar Heol Caer.

Ymysg yr adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi mae The Royal Oak a The George and Dragon ar Heol yr Eglwys (ac efallai Bar Lloyd ar Heol

Treffynnon, ar gyrion y dref). Mae gan y rhain nodweddion cynhenid: maent yn hir ac yn isel o gymharu â'r adeiladau uwch a ddaeth yn fwy nodweddiadol yn ddiweddarach. Erbyn tua 1840, roedd adeilad ag arddull mwy trefol wedi'i gyflwyno. Roedd un o'r nodweddion hyn yn amlwg yn nhrefniadaeth y gwaith datblygu a cheir sawl bloc o adeiladau sy'n cynnwys mwy nag un



Mae'r gwaith carreg y tu cefn i eiddo ar Heol yr Eglwys yn cynnig awgrym o'i darddiad.



Bwthyn to gwellt a gofnodwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, traddodiad adeiladu cynhenid sydd wedi diflannu o'r ardal drefol bellach (gan H. Gastineau, © CPAT).



Tafarn The Royal Oak — mae ei mesuriadau hir ac isel yn awgrymu ei bod yn dyddio o gyfnod cymharol gynnar.

eiddo, er iddo gael ei adeiladu fel un datblygiad. Un enghraifft o hyn yw'r teras neo-Tuduraidd ger y fynwent (rhifau 33–35), sydd â chyfansoddiad cymesur. Roedd rhifau 22–28 a 36–46 Heol yr Eglwys hefyd wedi'u hadeiladu fel terasau byr mae'n amlwg (er ei bod yn bosibl eu bod yn cynnwys adeiladau a fodolai eisoes, fel yr awgrymir gan y gwaith carreg anghyson a welir yn nrychiad cefn rhifau 22–28). Ar Trelawney Square, mae'n bosibl bod teras byr arall yn dyddio o'r cyfnod hwn (rhifau 4–6), er ei fod wedi'i ailfodelu'n fwy diweddar. Mae rhif 16 Heol yr Eglwys yn adeilad

Adeilad trefol amlwg yn awgrymu dechrau adfywiad o amgylch 1800.



unigol o'r cyfnod hwn, sy'n nodweddiadol am ei faint ac ansawdd ei fanylion, gyda'i ragfur uchel a chornis carreg.

Mae diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif wedi gadael eu hól yn fwy amlwg ar gymeriad adeiledig y dref, o ran y datblygiadau tai — twf y dref y tu hwnt i'w therfynau canoloesol, yn nodweddiadol gyda therasau brics o dai gweithwyr — ac adeiladau masnachol yng nghanol y dref, yn cynnwys ochr dde-orllewinol Heol yr Eglwys.

Mae dau gyfnod o ddatblygiadau yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi cyfrannu at gymeriad y Fflint: y broses o glirio ac ailddatblygu yn ystod y ddau ddegawd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a wnaed o fewn y terfynau canoloesol; a'r gwaith o ehangu y tu hwnt i'r terfynau hynny gyda'r cymysgedd o dai cyhoeddus a phreifat sy'n amgylchynu'r dref erbyn hyn.

Patrymau Datblygiadau

Yng nghanol y dref, roedd yr unedau o ddatblygiadau yn gymharol fach hyd at yr ugeinfed ganrif, gan roi'r patrwm nodweddiadol o derasau afreolaidd, anffurfiol. Roedd hyn yn wir hyd yn oed ar ochr dde-ddwyrainol Heol yr Eglwys, na chafodd ei datblygu rhyw lawer tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl bod

Rhifau 33–35 Heol yr Eglwys — mae undod gwreiddiol y cynllun yn amlwg o hyd er gwaethaf y newid tameidiog.



y patrwm datblygu hwn yn adlewyrchu tîrfeddiannaeth dameidiog yn y dref. Y tu hwnt i'w ffiniau, na chawsant eu datblygu tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr unedau o ddatblygiadau yn tueddu i fod rhywfaint yn fwy, gydag adeiladau wedi'u trefnu mewn cyfres o derasau bach — er enghraifft, ar Halkyn Street, Park Avenue, a Heol Caer.

Caiff newid arall yn y broses adeiladu ei ddangos ar Earl Street. Yma, ceir gwrthgyferbyniad o ran graddfa rhwng dau deras byr ar ben de-orllewinol y stryd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r pedwar tŷ ar ddeg ar y pen gogledd-ddwyreiniol sy'n dyddio o tua 1920 ac sydd yn arddull tai cwmni Courtauld.

Mae datblygiad tai cwmni Courtauld ar Thomas Street, a thai Dee Cottages a Henry Taylor Street yn enghreifftiau cynnar o gyfranogiad corfforaethol yn y broses adeiladu, gan gyflwyno undod cynllunio ar raddfa newydd.

Ceir rhai nodweddion o ddatblygiadau o'r ugeinfed ganrif: maent ar raddfa fwy; rhoddir mwy o sylw i gyfansoddiad; caiff un math o adeilad ei ailadrodd — mae enghreifftiau yn cynnwys parau o dai ar ddatblygiadau awdurdodau lleol a'r nifer fach o fathau gwahanol o dai ar ystadau hapfasnachol; ac mae blociau unigol o adeiladau yn tueddu i fod yn fwy, fel y blocdyrau a'r fflatiau sydd ar bob ochr i Heol yr Eglwys.



Chwith ac isod: Mae adeiladau ag arddulliau gwahanol yn nodi cyfnodau gwahanol o ddatblygiadau ar hyd Earl Street.

Dde isaf: Tai cynlluniedig o ddechrau'r ugeinfed ganrif ar Salusbury Street.

Chwith isaf: Roedd cynllunio cymesur yn nodwedd ar gynlluniau tai awdurdodau lleol cynnar.





Uchod: Mae gwaith carreg a ffenestri codi yn dangos tarddiad cynnar yr adeilad hwn ar Heol Caer.

Dde: Gwaith brics o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Heol yr Eglwys.



Rendrad o gyfnod diweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Forresters Hall.



Deunyddiau Adeiladu

Fel arfer cai'r adeiladau o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg eu rendro dros y gwaith brics neu garreg. Mae rendrad sgrafelloog wedi goroesi ar sawl adeilad, yn cynnwys rhif 16 Heol yr Eglwys, rhifau 36–44 Heol yr Eglwys a The George and Dragon. Mae olion gwaith carreg cynnar i'w gweld ar gefn adeiladau ar Heol yr Eglwys a Heol Caer sy'n dyddio o'r cyfnod cyn i frics ddechrau cael eu defnyddio yn helaeth. Tuag at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth gwaith brics agored yn boblogaidd, ac mae rhannau o rifau 22–28 Heol yr Eglwys yn cynnwys brics gydag ychydig o waith rendro drostynt. Fodd bynnag, hyd yn oed mor hwyr â thua 1870 (dyddiad Forresters Hall), rendrad oedd y gorffeniad cyffredin.

Y tu allan i'r dref ei hun, carreg oedd y deunydd adeiladu cynhenid cyffredin. Er enghraifft, mae'r bythynnod o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Ffordd Llaneurgain yn garreg (er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u rendro bellach) ac mae rhagor o enghreifftiau wedi goroesi yn rhif 71 Heol yr Eglwys, ger Swinchiard Brook, ac yn rhif 196 Heol Caer. Mae'n debyg bod llawer o'r gwaith carreg cynhenid hwn wedi'i wyngalchu'n wreiddiol.

Yn ystod y cyfnod adeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, defnyddid gwaith brics agored yn gyson ym mhensaerniaeth y dref, gyda rhestr o fanylion oedd yn nodweddiadol o dref gyda diwydiant brics lleol. Roedd y defnydd o frics ag arwyneb sgleiniog ar gyfer prif drychiadau yn nodweddiadol o hyn, a theracota wedi'i fowldio ar gyfer cornisiau a manylion eraill. Defnyddid gwaith brics yn helaeth hefyd ar gyfer muriau gerddi.

Yn yr ugeinfed ganrif, roedd brics yn parhau i gael eu defnyddio'n gyffredin, yn aml mewn cysylltiad â phaneli wedi'u rendro a ddefnyddid mewn lloriau uwch; defnyddid rendrad hefyd fel gorffeniad ar gyfer rhai o'r tai a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel, gan roi cymysgedd o arddulliau a gorffeniadau.

Mae'n bosibl mai gwellt oedd y deunydd traddodiadol ar gyfer toeau yn y dref ar un adeg, ond llechi oedd yn cael eu defnyddio pan adeiladwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau sydd wedi goroesi. Yn gyffredinol llechi gwastad a dorrwyd â pheiriant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a welir yn y dref yn bennaf, ond ceir rhai enghreifftiau o ddefnydd rhyfeddach sydd wedi goroesi: er enghraifft, ceir llechi mawr iawn ar rifau 7–9 Heol yr Eglwys ac ar y bythynnod ar Ffordd Llaneurgain. Roedd rhai o'r datblygiadau rhwng y ddau ryfel yn yr ugeinfed ganrif yn defnyddio teils to coch yn lle llechi. Mae'r amrywiad hwn mewn lliw yn helpu i wahaniaethu rhwng ystadau gwahanol.



Chwith pellaf: Gwaith carreg cynhenid bwthyn ar Heol yr Eglwys.

Chwith: Brics wyneb coch llachar nodweddiadol sy'n nodweddu gwaith adeiladu yn y Fflint o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Chwith pellaf: Mae gwaith brics wedi'i gyfuno â phaneli wedi'u rendro yn nodwedd amlwg ar rai o'r adeiladau o ddechrau'r ugeinfed ganrif yn y dref.

Chwith: Llechi mawr anarferol ar do bwthyn, Ffordd Llaneurgain.

Isod: Toeau teils coch sy'n nodweddiadol o rai datblygiadau tai o'r ugeinfed ganrif.





Mathau o Adeiladau ac Arddulliau Adeiladu

Mae'r datblygiad sydd wedi goroesi o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Heol yr Eglwys bellach bron i gyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Mae'n bosibl mai masnach fu'r prif ddefnydd erioed, gan mai hon oedd prif dramwyfa'r Fflint. Roedd y dref yn cynnwys sawl tafarn a siop wedi'u rhestru mewn cyfeirlyfrau masnach drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae blaenau siopau yn dyddio o'r ugeinfed ganrif yn bennaf, a cheir rhai enghreifftiau da o tua 1900, felly nid oes llawer o dystiolaeth bensaernïol o ddefnydd cynharach wedi goroesi (er bod ffotograffau hanesyddol yn cofnodi cymysgedd o ddefnyddiau). Dim ond ar ôl tua 1900 y daeth pensaernïaeth fasnachol benodol i'r amlwg. Ceir enghreifftiau da o dafarndai pwrpasol yn y

Uchod: Arddull fasnachol — enghraifft dda o bensaernïaeth tafarndai o ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Dde: Arddull gorfforaethol — National Westminster Bank.

Dde pellaf: Graddfeydd cyferbyniol mewn tai o gyfnodau gwahanol, Heol Caer.



Dde: Roedd rhesi hirach a thai uwch yn nodweddiadol o ddatblygiadau o gyfnod diweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dde pellaf: Tai mwy o faint ar ben Halkyn Street.



Fflint o tua 1880 (The Dee Inn) a 1920–30 (The Ship, The Raven, a The Swan ar Heol Caer). Mae'r banciau yn enghreifftiau da eraill o adeiladau masnachol o'r ugeinfed ganrif: National Westminster (Baroc Seisnig), Lloyds TSB (Modern Ewropeaidd), a HSBC (neo-glasurol). Ceir rhes fer o siopau hefyd (rhifau 48–54) sy'n dyddio o tua 1920 ar Heol Caer, ac erys elfennau o art deco ym mlaenau'r siopau; adferwyd y parêd o'r 1950au (rhifau 2–22 Heol Caer) yn ddiweddar ac mae wedi cadw nodweddion modern da.



Tai ar wahân mwy o faint ym Mhentre Ffwrndan.

Arsylwyd eisoes bod y rhan fwyaf o'r tai o gyfnod diweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y Fflint yn cynnwys tai llai ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio. Clirwyd bron pob un ohonynt yn ystod rhaglenni ailddatblygu yn yr ugeinfed ganrif (Mount Street, Mumforth Street, Swan Lane, Castle Street, Roskell Square), ond mae'r ffaith eu bod yn dai teras bach yn nodweddiadol o'r tai sydd wedi goroesi o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Maent yn cyferbynnu â'r nifer fach o derasau cynhenid diwydiannol sydd wedi goroesi (fel Mount Pleasant ac ar Heol Caer) oherwydd eu bod yn uwch, bod eu ffenestri'n fwy ac oherwydd yr addurniadau ar y prif ffasad. Nid oes llawer o dai ar wahân na thai mwy o'r cyfnod hwn wedi goroesi, heblaw am rai ar waelod Halkyn Street. Daeth mwy o wahanol fathau o dai yn amlwg yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel, yn bennaf ar yr ystadau hapfasnachol a ddatblygwyd, ond hefyd mewn nifer fach o dai a gomisiynwyd yn unigol. Ceir enghreifftiau da o'r rhain ym Mhentre Ffwrndan (yn ardal Eglwys Dewi Sant). Er hynny, mae'r datblygiadau hyn yn cydymffurfio i raddau helaeth, fel yn nhai awdurdod lleol y cyfnod hwn. Mae'r datblygiadau tai mwy diweddar hefyd yn gymharol unffurf.



Chwith ac isod: Roedd arddull neo-Sioraidd yn nodweddiadol o ddatblygiadau tai rhwng y ddau ryfel yn y Fflint, ond prin yw'r manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi.

Yn yr ugeinfed ganrif, datblygwyd ystadau gwahanol gan ddefnyddio arddulliau gwahanol. Ffafiwyd arddull gynhenid neo-Sioraidd ar gyfer tai cyngor yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel, a cheir rhai enghreifftiau da yn ardaloedd Borough Grove a Rhodfa Tywysog, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o dai wedi cael ffenestri newydd ers hynny, ac mae newidiadau tameidiog wedi amharu ar y natur unffurf a fwriadwyd ar gyfer yr ystadau hyn, ond mae rhai enghreifftiau digyfnawid wedi goroesi. Parhaodd gwaith adeiladu hapfasnachol ar linellau tebyg yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel, lle y cafodd ystadau preifat natur unffurf oherwydd yr ailadrodd. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau nodedig hefyd o dai wedi'u cynllunio'n unigol yn cynnwys rhai neo-Sioraidd da, ac art deco. Mewn datblygiadau cyngor ar ôl y rhyfel, roedd arddulliau'n amrywio o'r modern 'Festival of Britain' (Knights Green), i foderniaeth frutalaidd yn y 1960au.



Manylion o safon uchel mewn tŷ a adeiladwyd yn breifat.

Ardaloedd â Nodweddion

1. Ardal Mignen y Fflint

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys rhan o draethlin hynafol gladdedig aber afon Dyfrdwy, dyddodion arosoddedig cynnyrch diwydiannol, cronfeydd dŵr a lagwnau a grëwyd o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen. Mae'r defnydd modern a wneir o'r tir yn bennaf ar gyfer bywyd gwyllt a hamdden.

Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod tystiolaeth o hanes palaeoamgylcheddol cynnar y rhanbarth a'r draethlin gladdedig hynafol wedi'i chadw mewn dyddodion claddedig. Efallai bod strwythurau claddedig a dyddodion pwysig hefyd yn gysylltiedig â hanes diwydiannol cynnar y rhanbarth.

2. Ardal Aber Park

Cefndir Hanesyddol

Mae safle tybiedig Brwydr Coleshill yn 1157 yn yr ardal hon. O ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ffurfiodd rhan orllewinol yr ardal ran o'r caeau agored canoloesol sy'n gysylltiedig â thref y Fflint a oedd newydd ei chreu, y mae ardaloedd bach sy'n weddill ohoni yn ffurfio clustog ar hyd ffin orllewinol yr ardal. Mae'n bosibl bod rhan ddwyreiniol yr ardal yn ffurfio tir comin agored yn ystod y cyfnod hwn. Sefydlwyd

sawl fferm yn yr ardal ar ymylon y caeau agored canoloesol yn ddiweddarach yn ystod y canoloesoedd. Roedd pyllau glo a systemau tram cysylltiedig yn Marsh Pit a Flint Marsh Pit ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Datblygodd diwydiannau prosesu yn yr ardal o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd melin bapur yn y 1890au, a chafodd ei thro'i'n ffatri tecstilau gan gwmni o'r Almaen (The British Glanzstoff Company) yn ystod degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, ond caeodd ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Fe'i cymerwyd drosodd gan Courtaulds a'i hailenwi'n Aber Works yn 1917. Gwnaed reion yno hyd at 1957, ac yna bu'r gwaith yn cannu mwydion a phapur. Ehangodd busnes Courtaulds i gynnwys Deeside Factory, a brynwyd ganddynt yn 1927, ac a ddechreuodd fel ffatri tecstilau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ailddatblygwyd yr ardal yn helaeth at ddibenion diwydiant, manwerthu a hamdden modern a chrëwyd Parc Diwydiannol Aber a Pharc Manwerthu Sir y Fflint.

Potensial Archeolegol

Efallai bod strwythurau claddedig a dyddodion pwysig yn gysylltiedig â hanes diwydiannol cynnar y rhanbarth.

Nodweddion Adeiladu

Unedau diwydiannol, manwerthu a hamdden o ddiwedd yr ugeinfed ganrif a geir yma yn bennaf, ond mae adeilad swyddfa gwych yn arddull y Dadeni wedi goroesi (mae'n debyg ei fod yn gysylltiedig â'r ffatri tecstilau Almaenig a agorodd yma ar ddechrau'r ugeinfed ganrif), ynghyd â'i borthordy.

Dde: Mae'r adeilad cain hwn o gyfnod y Dadeni wedi goroesi o ddatblygiadau diwydiannol ddechrau'r ugeinfed ganrif yn Aber Park.

Dde pellaf: Tai o ddechrau'r ugeinfed ganrif ar Swinchiard Walk.



Mae'r ardal hefyd yn cynnwys nifer fach o dai o ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn enwedig ar Swinchiard Walk, lle y dangosir gwaith cynllunio unfurf a manylion o safon sy'n awgrymu cyfranogiad gan y cwmni.

3. Ardal Cornist Park

Cefndir Hanesyddol

Tir fferm agored oedd yr ardal hyd at ail hanner yr ugeinfed ganrif. O ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg roedd rhan orllewinol yr ardal yn ffurfio rhan o'r caeau agored a oedd yn perthyn i dref ganoloesol y Fflint a oedd newydd gael ei chreu, yr oedd nifer o ardaloedd bach a oedd yn weddill heb eu datblygu o hyd. Ceir arwyddion o'r gwelliannau amaethyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ar ôl y canoloesoedd gan nifer o byllau marl a gloddiwyd yn y caeau ledled yr ardal mewn ymdrech i wella ffrwythlondeb y pridd a hefyd drwy adeiladu nifer o odynau calch. Roedd yr ardal yn ffinio â'r parcdir a oedd yn gysylltiedig â Cornist Hall, ymhellach i'r gorllewin, ac roedd ei thramwyfa yn croesi'r ardal, gan arwain at borthordy ar hyd Old London Road. Datblygwyd gweithgareddau diwydiannol ar raddfa fechan yn yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn cynnwys nifer o chwareli tywod a graean ar raddfa gymharol fach. Hefyd datblygwyd amwynderau dinesig amrywiol ar hyd Old London Road yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y gwaith dŵr ac ail fynwent i'r dref. Datblygwyd yr ardal ar gyfer ystadau tai mawr yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, gan yr awdurdod lleol a chan adeiladwyr hapfasnachol.

Potensial Archeolegol

Efallai bod strwythurau claddedig a dyddodion pwysig yn gysylltiedig â hanes amaethyddol a diwydiannol cynnar y rhanbarth.

Nodweddion adeiladu

Ceir dwy ardal sy'n cynnwys tai cyngor a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel sydd wedi cadw cymeriad unedig: datblygiad bach i'r gogledd o Cornist Lane a datblygiad mwy rhwng Maes Afon a Cornist Drive. Mae'r ail yn cynnwys datblygiad da o dai gwarchod (Gilfan), a adeiladwyd yn null elusendai o amgylch clos. Mae ardal The Royal Drive yn cynnwys adeiladau hapfasnachol a adeiladwyd yn 1970 ac yn ddiweddarach.



4. Ardal Castle Park

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cwmpasu rhan o draethlin hynafol gladdedig aber afon Dyfrdwy. Ceir strwythurau a dyddodion diwydiannol arosodedig arni sydd wedi'u hadeiladu allan i'r aber ers diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, sy'n gysylltiedig â glanfeydd a chydau'r diwydiannau glo, mwyndoddi plwm, adeiladu llongau, gwaith haearn, tecstilïau cemegol ac ar tiffisial. Lleolwyd Castle Works Courtaulds — a sefydlwyd yn 1920 — yma, ac mae rhai adeiladau o'r cyfnod hwn wedi goroesi drwy gyfnodau o ailddatblygu. Erbyn heddiw mae'r ardal yn cynnwys unedau diwydiannol ysgafn modern yn bennaf a adeiladwyd yn ystod degawdau diwethaf yr ugeinfed ganrif. Mae rhan dde-ddwyreiniol yr ardal yn cynnwys rhan o ffos lydan beili allanol Castell y Fflint lle yr arosodwyd gwaith diwydiannol diweddarach.

Potensial Archeolegol

Efallai bod tystiolaeth ar gyfer hanes palaeoamgylcheddol y rhanbarth a'r draethlin gladdedig hynafol wedi'i chadw mewn dyddodion claddedig. Dylid cadw strwythurau a dyddodion sy'n gysylltiedig â ffos beili allanol Castell y Fflint, ynghyd ag unrhyw strwythurau a dyddodion claddedig sy'n ymwneud â hanes diwydiannol a hanes trafniadaeth cynnar yr ardal.

Gilfan: Datblygiad tai gwarchod anarferol a nodedig.

Un o'r ychydig adeiladau sydd wedi goroesi o Castle Works Courtaulds.



Ffin yr hen Castle Works.



Isod: Castell y Fflint.



Nodweddion Adeiladu

Mae dau adeilad swyddfa neu les sy'n gysylltiedig â Castle Works Courtaulds wedi goroesi, un bob ochr i'r dramwyfa sydd bellach yn brif fynediad i'r ystad ddiwydiannol. Adeiladau brics un llawr ydynt mewn arddull neo-Sioraidd. Mae'r wal derfyn sydd â phaneli brics gyda phileri gatiâu a rheiliau ar Evans Street yn dyddio o'r un cyfnod neu o gyfnod ychydig yn gynharach. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau diwydiannol yn fodern, ond mae o leiaf un sied gwehyddu wedi goroesi yn y cefn. Mae cysylltiad hanesyddol a gweledol pwysig rhwng y rhain a'r tai cyfagos yn ardal â nodweddion Corporation Street a Castle Dyke Street.

5. Ardal Castell y Fflint

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys beili mewnol y castell carreg brenhinol a adeiladwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ynghyd â'r rhan fwyaf o'r beili allanol, ei amddiffynfeydd a glanfeydd. Codwyd carchar ar ran o'r beili allanol yn y ddeunawfed ganrif ond mae bellach wedi'i ddymchwel.

Potensial Archeolegol

Rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o reoli olion gweledol y castell a'i leoliad, a gwarchod strwythurau a dyddodion claddedig yn y castell ac yn ei ffos allanol.

6. Ardal Castle Dyke Street — Corporation Street

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys rhan ogledd-ddwyreiniol y dref newydd a'i hamddiffynfeydd a grëwyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, i'r dwyrain o'r rheilffordd a adeiladwyd yn 1848. Mae'n bosibl hefyd bod yr ardal yn cynnwys safle giât wreiddiol fel mynedfa i bont a arweinai tuag at y castell a, tuag at y dwyrain, ran o'r glanfeydd a oedd yn perthyn i'r dref ganoloesol. Goroesodd patrwm stryd llinellol y dref ganoloesol yn ei gyfanrwydd (er mai dim ond yn rhannol y cafodd ei ddatblygu mae'n debyg) nes i ddyfodiad y rheilffordd yn 1848

wahanu'r ardal hon oddi wrth weddill y dref i bob pwrpas. Bu trafodaethau rhwng y gorfforaeth a'r cwmni rheilffordd ynghylch adeiladu stryd newydd, Corporation Street, a helpodd i osod patrwm grid annibynnol ar gyfer yr ardal hon. Goroedd rhai strydoedd canoloesol (Castle Street, Evans Street, Duck Lane) hyd at yr ugeinfed ganrif, ond collwyd parhâd Sydney Street, Mumforth Street a Duke Street erbyn tua 1870. Datblygiad ysbeidiol a fu yn yr ardal hon ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda thair teras bach iawn, yn bennaf ar hyd Castle Street i ddechrau, ac yna ar Salusbury Street (Duck Lane a ailenydd), gydag ardal eilaidd, Roskell Square, i'r de-ddwyrain. Ailddatblygwyd adeiladau afreolaidd ar Salusbury Street yn y 1920au pan adeiladodd cwmni Courtaulds dai ar Thomas Street a Salusbury Street, mewn cysylltiad â'i ffatri newydd yn Castle Works. Estynnwyd y gwaith ailddatblygu hwn yn y 1950au gan dai cyngor yn bennaf ar Castle Street, Corporation Street a New Roskell Square. Ceir cysylltiadau pwysig rhwng yr ardal hon a Henry Taylor Street/Dee Cottages, sy'n ffurfio rhan o ardal â nodweddion Heol Caer, a hefyd ag olion Castle Works Courtaulds yn ardal â nodweddion Castle Park.

Potensial Archeolegol

Efallai bod strwythurau a dyddodion claddedig yn gysylltiedig â'r dref ganoloesol a'i hamddiffynfeydd a'i glanfeydd.

Nodweddion Adeiladu

Mae tai cwmni Courtaulds wedi goroesi fel datblygiad bach ymysg y tai cyhoeddus o'r 1950au a welir yn bennaf yn yr ardal hon. Mae tai y cwmni wedi'u cynllunio'n fanwl gyda gwaith brics cywrain: mae gan ffryntiad Evans Street wrth ymyl gatau'r ffatri flociau to slip ar ben y ddwy res, a gwaith patrwm caerog yn y talcenni. Mae'r terasau wedi cadw llawer o'u manylion: pilastrau brics, teils saethben uwchben y ffenestri, simneiau, gordoeau a ffasadau clir a phenodol wedi'u rendro gyda phlastr garw ar y gwaith brics. Mae nodweddion cyson i ddatblygiadau cyngor ar ôl y rhyfel, fel cyfres o resi teras isel o waith brics.

Mae rhai datblygiadau bach sy'n dyddio o tua 1900 hefyd wedi goroesi yn yr ardal hon ar Castle Dyke Street. Mae Dee Villa yn enghraifft dda o dŷ o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd wedi cadw ei fanylion gwreiddiol.



*Chwith ac uchod:
Tai y cwmni gerllaw'r
hen Castle Works —
datblygiad nodweddiadol
gyda manylion anarferol.*

7. Ardal Canol y Dref

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys y rhan fwyaf o'r dref newydd a'i hamddiffynfeydd a grëwyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, i'r gorllewin o'r rheilffordd a adeiladwyd yn 1848, ac mae'n cynnwys safle'r eglwys a'r fynwent ganoloesol wreiddiol a'r tri phrif borth i'r dref ganoloesol. Yn ystod y cyfnod rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ehangodd y dref yn raddol dros amddiffynfeydd y dref ganoloesol a thu hwnt i giât y dref i'r de-ddwyrain. Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg tai teras i weithwyr a welwyd yn bennaf ynghyd â siopau a safleoedd masnachol ar hyd ffyrntiadau'r prif strydoedd, gan gadw at y cynllun strydoedd grid canoloesol. Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ailddatblygwyd ardaloedd y tai gweithwyr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan adeiladu tai awdurdod lleol isel ac uchel, adeiladau dinesig, a swyddfeydd, gan guddio cynllun strydoedd y dref ganoloesol a'i hamddiffynfeydd yn rhannol.

Roedd y cynllun canoloesol yn cynnwys ac yn llunio datblygiadau yng nghanol y dref a gellir ei weld o hyd, er bod gwaith ailddatblygu ar ôl y rhyfel wedi dileu rhai o'r strydoedd cyfochrog. Felly mae Heol yr Eglwys a Heol Caer yn nodi prif strydoedd y dref sydd wedi goroesi. Erys strwythur lleiniau nodweddiadol a all fod yn arwydd o'u tarddiad ar ochr ogledd-ddwyrain Heol Caer, ac ar ochr ogledd-orllewinol Heol yr Eglwys. Mewn manau eraill collwyd unrhyw strwythur lleiniau cynharach yn ystod y gwaith datblygu cynhwysfawr a wnaed ar ôl y rhyfel, yn cynnwys pen de-orllewinol Heol yr Eglwys (ar gyfer y llyfrgell), ac ochr dde-orllewinol Heol Caer (ar gyfer adeiladu parêd o siopau yn y 1950au — enghraifft dda o ddatblygiad o'r cyfnod hwn). Mae graddfa cymharol fach unedau'r datblygiad hefyd yn arwydd o darddiad cynnar y datblygiadau yma. Mae terasau byr iawn neu adeiladau unigol wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio terasau anffurfiol yn nodweddiadol.

Mewn cyferbyniad, ni ddangoswyd unrhyw strwythur lleiniau ar fap Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans ar gyfer tir ar ochr dde-orllewinol Heol yr Eglwys. Mae'r ffaith mai araf fu'r gwaith datblygu ar ochr hon y stryd i'w gweld yn glir yn nodweddiad yr adeiladau sy'n dyddio o tua 1900, y mae llawer ohonynt o waith brics a theracota.

Dangoswyd y nifer fach o adeiladau o amgylch cyrion y

canol hanesyddol gan Speed yn 1610. Ni cheir unrhyw adeiladau cynnar ar y cyrion hyn mwyach, ac eithrio Bar Lloyd, Heol Treffynnon o bosibl, sy'n dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif o bosibl. Mae datblygiadau ysbeidiol yn dyddio o tua 1900 wedi goroesi, er enghraifft ar Halkyn Street, Coleshill Street ac Earl Street. Tir garddio heb ei ddatblygu oedd ar safle Earl Street tan tua 1898 a pharhaodd y gwaith adeiladu yn araf wedi hynny. Mae terasau ar ben gogledd-ddwyrainiol y stryd yn dyddio o tua 1920 ac mae'n bosibl mai cwmni Courtaulds a'u hadeiladodd. Mae cynlluniau ffurfiol y parau o dai grisio, y manylion teracota a'r gro chwipio ar y llawr uchaf yn debyg i dai'r cwmni yn ardal Castle Dyke Street-Corporation Street.

Ail-fodelodd y gwaith ailddatblygu ar ôl y rhyfel y dref hanesyddol ac i ryw raddau sefydlodd ei geometreg ei hun. Yn y dref, collwyd Mumforth Street, Swan Lane a Mount Street yn sgil y gwaith ailddatblygu cynhwysfawr, ac ar y cyrion, adeiladwyd Knights Green ar hen gaeau.

Potensial Archeolegol

Efallai bod tystiolaeth bwysig o ran y dref ganoloesol a'i hamddiffynfeydd wedi'i chadw mewn strwythurau a dyddodion claddedig.

Nodweddion Adeiladu

Nid yw'r adeiladau yn y canol hanesyddol yn dyddio'n ôl ymhellach na thua 1820 yn gyffredinol, ac mae llawer o'r adeiladau yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu tua 1930. Y ddau eithriad yw'r adeiladau sydd â thalcenni yn wynebu'r stryd. Yn aml mae hyn yn dynodi eu bod yn dyddio o gyfnod cynnar. Mae gan un ohonynt simnai ystlysol, ond ymddengys bod y ddau ohonynt wedi cael eu hailadeiladu'n helaeth. Fodd bynnag, drwy wneud gwaith archwilio manwl mae'n bosibl y gellir gweld olion adeiledd cynnar o hyd. Yn ystod y cyfnod adeiladu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceir newid amlwg o adeiladau ar ffurf gynhenid lle mae'r adeiladau yn hir ac yn isel yn nodweddiadol (The George and Dragon a The Royal Oak), i ffurf fwy trefol, lle mae'r adeiladau yn fwy cryno o ran cynllun ac yn uwch (rhif 16 Heol yr Eglwys). Mae'r teras byr — rhifau 22–28, 33–35, a 36–46 Heol yr Eglwys — hefyd yn nodweddiadol o'r cyfnod adeiladu trefol cynnar hwn.

Gyda rhai eithriadau, rendrad llinelllog oedd y gorffeniad mwyaf cyffredin ar gyfer gwaith adeiladu o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd gwaith brics agored, yn aml gyda brics wyneb gwahanol, wedi dod yn gyffredin. Mae hyn yn nodweddiadol o ochr dde-orllewinol Heol yr Eglwys, ac yn enwedig yn y datblygiadau sydd wedi goroesi o tua 1900 sydd ar gyrion canol y dref.

Adeiladau masnachol a geir ar Heol yr Eglwys a Heol Caer yn bennaf. Dangosir y pwysau i newid yn ystod yr ugeinfed ganrif drwy ddatblygiad amrywiol adeiladau o fewn yr un teras, ond mae cyfnodau gwahanol o fuddsoddiad wedi cynhyrchu rhai manylion diddorol, yn cynnwys enghreifftiau da o flaenau siopau, a blaen art deco Glasgow House. Hyd yn oed pan fydd blaenau siopau modern wedi'u gosod, mae manylion y llawr uwch yn aml yn goroesi o gyfnodau cynharach, er enghraifft yn rhif 16 Heol yr Eglwys, sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a Forresters Hall, o 1870. Ceir hefyd enghreifftiau da o adeiladau masnachol pwrpasol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen: yn enwedig tafarndai (The Swan Hotel er enghraifft) a banciau (National Westminster a HSBC), ond hefyd y swyddfa bost neo-Sioraidd. Mae rhifau 2-22 Heol Caer yn enghraifft dda iawn o barêd siopa o'r 1950au, ac mae'n braf gweld y gwaith adnewyddu a wnaed arnynt yn ddiweddar.



Uchod: Mae'n debyg bod tafarn The George and Dragon yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd y Fflint yn dechrau ffynnu eto.



Chwith: Mae'r blaen art deco a ychwanegwyd i Glasgow House yn dangos y ffyniant yn y dref ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Chwith pellaf: Adeilad cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Heol yr Eglwys.



Chwith: Mae'r hen swyddfa bost yn enghraifft dda o adeilad dinesig a masnachol o'r ugeinfed ganrif.



Chwith pellaf: Golygfa o deras o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Heol yr Eglwys o'r cefn.

8. Ardal Pengoch

Isod: Tai pêr neo-Sioraidd gyda gerddi mawr, sy'n nodweddiadol o gynlluniau tai cyhoeddus o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel.

Gwaelod: Datblygiad dwysach sy'n nodweddiadol o ddatblygiadau tai ar ôl y rhyfel.

Cefndir Hanesyddol

Roedd llawer o ran ddwyreiniol yr ardal yn dir ffermio agored hyd at ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae'n debyg bod llwybr y ffordd Rufeinig ar hyd yr aber sy'n rhedeg i'r gorllewin o Gaer yn croesi'r ardal. O ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg roedd yr ardal hon yn ffurfio rhan o'r caeau agored a oedd yn perthyn i dref ganoloesol y Fflint a oedd newydd gael ei chreu, a adlewyrchir o hyd yn aliniad nifer o ffyrdd, lonydd a



ffiniau adeiladau. Mae nifer o byllau marl a gloddiwyd yn y caeau ledled yr ardal mewn ymdrech i wella ffrwythlondeb y pridd yn arwydd o'r gwelliannau amaethyddol a wnaed yma yn ystod y cyfnod ar ôl y canoloesoedd. Yn ystod y canoloesoedd ymddengys fod ochr orllewinol yr ardal ar hyd Swinchiard Brook ac yn benodol rhwng Halkyn Road a Ffordd Lloneurgain, wedi ffurfio llain o dir comin agored a olygai y gellid symud anifeiliaid i'r tir uwch i'r de o'r dref.

Roedd Melin y Fflint yn rhan o'r gweithgarwch diwydiannol cynnar yn yr ardal hon, yn seiliedig ar y defnydd o bŵer dŵr. Roedd rhai aneddiadau anffurfiol yn y dyffryn. Mae creiriau o'r cyfnod hwn wedi goroesi, er eu bod wedi'u haddasu'n sylweddol. Ymysg y gweithgarwch diwydiannol a ddatblygodd yn enwedig yn rhan orllewinol yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif roedd pyllau glo, a gweithfeydd gweithgynhyrchu brics a theils; ffurfiodd y ddau ddiwydiant hyn ganolbwynt ar gyfer sawl clwstwr bach o dai gweithwyr yn ardal Mount Pleasant. Datblygwyd amwynderau dinesig amrywiol ar hyd Ffordd Lloneurgain yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cynnwys mynwent y dref a'r Ysgol Genedlaethol.

Datblygwyd yr ardal i greu llawer o ystadau tai cyhoeddus a phreifat ac ysgolion yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae nifer o ardaloedd bach sy'n weddill o gaeau agored canoloesol heb eu datblygu o hyd, yn benodol yng nghaeau chwarae'r ysgol ac ardal agored Pen-Goch Hill.

Potensial Archeolegol

Efallai bod strwythurau a dyddodion claddedig yn gysylltiedig â'r ffordd Rufeinig sy'n rhedeg tua'r gorllewin o Gaer, ac yn gysylltiedig â hanes amaethyddol a diwydiannol cynnar yr ardal.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r ardal yn cynrychioli'r gwaith sylweddol a wnaed i ehangu'r Fflint y tu hwnt i'w therfynau canoloesol. Dangosir cam cyntaf y twf hwn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf yn y terasau o dai gweithwyr a adeiladwyd gan ddefnyddio brics wyneb llachar nodweddiadol gyda manylion teracota. Ceir hefyd rai filâu pêr mwy o faint ar ben Halkyn Road. Bu datblygiadau tebyg ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a dim ond yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel y gwelwyd y gwaith ehangu yn

cyflymu gyda chyfres o ystadau tai cyhoeddus a phreifat, pob un â'i chymeriad ei hun: 'quiet residential roads of trim little houses, each with its tidy garden' a nodwyd mewn tywyslyfr swyddogol a gyhoeddwyd yn 1968.²⁵ Yn y 1920au a'r 1930au gwelwyd dylanwad yr arddull neo-Sioraidd gyda chynlluniau mawr yn cynnwys gerddi ffrynt. Ceir strydoedd llydan ar ystadau'r awdurdod lleol, a lefel o gyfansoddiad sy'n eu gwneud yn wahanol i'r ystadau hapfasnachol cyfagos. Er enghraifft, gweler ystad Borough Grove/ Trelawney Avenue, a'r datblygiad preifat yn union i'r dwyrain. Mae'r datblygiad o'r 1950au ym Maes Gwyn yn ystad awdurdod lleol nodweddiadol arall, ond fe'i hamgylchynir gan dai o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel. Mae ardal First Avenue ymhlith un o'r datblygiadau hapfasnachol mwyaf a adeiladwyd yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel. Gwelwyd arddulliau mwy amrywiol o dai yn y datblygiadau preifat llai, a cheir enghreifftiau da o hyn yn rhif 1 Coed Onn Road, a Brentwood a'r Ficerdy ar Allt Goch.



Ceir hefyd bocedi o ddatblygiadau cynharach. Yn Mount Pleasant, mae cyfres o resi o fythynnod o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cadw nodweddion cynhenid, ac yn ardal The Bryn/Halkyn Street ceir adeiladau gwasgareddig eraill sy'n dyddio o'r cyfnod hwn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u haddasu'n helaeth, ond mae pâr o fythynnod cerrig wedi goroesi ar The Bryn.



9. Ardal Flint Sands

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cynnwys rhan o draethlin hynafol claddedig aber afon Dyfrdwy, y cafodd rhannau ohoni eu hadfer at ddiibenion amaethyddol i ddechrau mae'n debyg yn yr ail ganrif ar bymtheg hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl bod glanfeydd yn rhan dde-ddwyreiniol yr ardal yn ystod y cyfnod Rhufeinig, yn gwasanaethu'r diwydiant gwaith plwm a ddatblygodd yn yr ardal gyfagos ym Mhentre Ffwrndan. Roedd ffatri gemegion ac ardaloedd o wastraff ym mhen de-ddwyreiniol yr ardal yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â maes saethu. Datblygwyd rhywfaint o ganol yr ardal fel gwaith brics yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fel gwaith carthffosiaeth yn yr ugeinfed ganrif. Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg adeiladwyd baddondai ar ben gorllewinol yr ardal ac yn ystod yr ugeinfed ganrif adeiladwyd gorsaf bad

achub, cae pêl-droed a meysydd parcio yma.

Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod dyddodion claddedig sy'n bwysig o ran hanes palaeoamgylcheddol cynnar y rhanbarth, yn ogystal â dyddodion a strwythurau claddedig posibl sy'n ymwneud â glanfeydd a llongau Rhufeinig. Mae'n bosibl bod tystiolaeth o'r draethlin hynafol wedi'i chladdu o dan ddyddodion diwydiannol diweddarach, a strwythurau a dyddodion claddedig posibl sy'n

Uchaf: Enghraifft anarferol o fanylion art deco ar ddatblygiad hapfasnachol o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel.

Uchod: Mae'n bosibl bod datblygiad anffurfiol ar Halkyn Street yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.



ymwneud â hanes diwydiannol cynnar yr ardal.

*Uchaf: Tai teras ar Heol
Caer gyda brics wyneb
llachar coch ag
addurniadau arosod,
sy'n nodweddiadol o
ddiwedd y bedwaredd
ganrif ar bymtheg.*

*Dde: Gwaith brics
addurniadol,
Dee Cottages.*



*Dee Cottages, wedi'u
gosod yn hynod
o unffurf.*

10. Ardal Heol Caer

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cwmpasu'r brif ffordd i'r dwyrain o'r dref. Mae'n debyg ei bod yn dilyn llwybr y ffordd ganoloesol wreiddiol a redai rhwng caeau agored i'r dwyrain o'r dref ac a wellwyd fel ffordd dyrpeg ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dechreuodd tai ac adeiladau eraill cynharach gael eu hadeiladu ar hyd y ffordd ar gyrion y dref mae'n debyg erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ond nid ymddengys fod unrhyw beth wedi goroesi o'r cyfnod hwn. Ehangodd y gwaith datblygu'n gyflym tua'r gorllewin gyda therasau o dai gweithwyr o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Ymysg y gweithgarwch diwydiannol yn yr ardal ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd pyllau glo ac yna'r gwaith brics yn ardal y garej, y gyfnewidfa ffôn a'r orsaf dân ym mhen gorllewinol Heol Caer.

Potensial Archeolegol

Efallai bod strwythurau a dyddodion claddedig sy'n bwysig o ran hanes diwydiannol, amaethyddol a thrafnidiaeth y rhanbarth.

Nodweddion Adeiladu

Ceir patrwm datblygiad llinellol cryf ar hyd y ffordd, sy'n gymharol gymysg o ran nodweddion, yn cynnwys rhai terasau o fythynnod o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae rhai ohonynt yn gymharol fach a gyda nodweddion cynhenid diwydiannol. Mae eraill wedi'u hadeiladu gyda'r brics wyneb llachar sy'n nodweddiadol o tua'r cyfnod 1900.

Ar ochr ogledd-ddwyrainol y rheilffordd, mae Henry Taylor Street a Dee Cottages yn ffurfio clofan nodweddiadol eu hunain. Mae gan y datblygiad hwn gysylltiadau hanesyddol â thai Thomas Street/Salusbury Street (ardal â nodweddion Castle Dyke Street-Corporation Street), ac maent yn debyg o ran arddull. Mae Dee Cottages sy'n adeiladau un llawr yn ffurfio datblygiad tai cynlluniedig bach hynod.

11. Ardal Pentre Ffwrndan

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal yn cwmpasu llwybr y ffordd Rufeinig ar hyd aber yr afon i'r gorllewin o Gaer. Datblygwyd gweithfeydd mwyndoddi plwm yn yr ardal yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid, a gynrychiolir gan olion ffwrneisi, tai ac adeiladau eraill anheddiad diwydiannol bach, cyrff claddedig, cyfadeilad o statws uchel ac olion posibl glanfa Rufeinig a ganfuwyd pan wnaed gwaith datblygu tai. Roedd safle'r groes ganoloesol gynnar, Atiscros, yn yr ardal ac adeiladwyd drosti bellach. Yn ystod y cyfnod canoloesol roedd yr ardal yn cwmpasu'r ffordd a redai drwy'r hen gaeau agored i'r dwyrain o dref y Fflint. Mae'n debyg i felin flawd yn seiliedig ar bŵer dŵr gael ei datblygu yn yr ardal yn ystod y cyfnod hwn ac yn ddiweddarach arweiniodd at gnewyllyn o aneddiadau o amgylch Pentre Mill a dyfodd yn dilyn y gwelliannau i'r ffordd dyrpeg ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafodd tomenni gwastraff mwy plwm eu haildefnyddio ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, gan ddefnyddio pŵer dŵr mae'n debyg.

Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod strwythurau a dyddodion claddedig sy'n ymwneud ag aneddiadau Rhufeinig, gweithgarwch diwydiannol, llongau a thrafnidiaeth ffordd, yn ogystal ag amaethyddiaeth ganoloesol a'r defnydd o bŵer dŵr ar gyfer prosesu plwm a melino o'r canoloesoedd i ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Nodweddion Adeiladu

Mae'n debyg mai rhif 196 Heol Caer yw'r adeilad cynharaf sydd wedi goroesi, a wnaed o garreg gyda nodweddion cynhenid. Mae ei adeiladau fferm hefyd wedi goroesi. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygodd yr ardal gyda therasau byr o dai, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfochrog â'r ffordd. Mae'n bosibl bod dau deras sydd ar onglau sgwâr i'r



Enghraifft brin o adeilad cynhenid, Heol Caer.

ffordd wedi cynrychioli ymdrech fwy uchelgeisiol i'w datblygu, ond maent yn dal i sefyll mewn cefn gwlad agored ar gyrion y dref. Yn ardal Eglwys Dewi Sant ceir cyfres o dai preifat mwy ar wahân o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel.

12. Ardal Maes y Dre

Cefndir Hanesyddol

O ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg roedd rhan orllewinol yr ardal yn ffurfio rhan o'r caeau agored a oedd yn perthyn i dref y Fflint a oedd newydd gael ei chreu, ac mae'r rhan fwyaf ohoni wedi goroesi hyd heddiw fel tir ffermio heb ei ddatblygu. Mae'r pyllau marl a gloddiwyd yn y caeau ledled yr ardal mewn ymdrech i wella ffrwythlondeb y pridd yn arwydd o'r gwelliannau amaethyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ar ôl y canoloesoedd. Datblygwyd melinau blawd a oedd yn seiliedig ar bŵer dŵr yn ardal Melin Croes-ati yn ystod y canoloesoedd gan barhau hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod strwythurau a dyddodion claddedig sy'n bwysig o ran hanes amaethyddol y rhanbarth, ac o ran y defnydd o bŵer dŵr ar gyfer melino rhwng y cyfnod canoloesol a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Datganiad Pwysigrwydd

Mae'r Fflint yn dref fodern gyda gorffennol hynod ddiddorol. Hon oedd y dref â chastell gyntaf i gael ei chreu gan y Brenin Edward I ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, a ddewiswyd fel safle strategol yng ngoresgyniad y gogledd. Yn ddiweddarach o lawer, roedd y lleoliad yn strategol mewn ffyrdd eraill, a datblygodd y dref fel canolfan ddiwydiannol a wasanaethid gan lwybrau trafnidiaeth pwysig ar yr afon, y ffordd a'r rheilffordd. Arweiniodd diwydiannu at newid sylweddol a thwf cyflym. Er hyn, mae amlinellau'r fwrdeistref ganoloesol wedi goroesi'n rhyfeddol o dda, a'i geometreg anhyblyg wedi gwrthsefyll popeth ond yr agweddau mwyaf radical ar y datblygiadau dilynol. Ymysg y rhain mae'r rheilffordd a'i rhannodd, datblygiadau tai o ganol yr ugeinfed ganrif a ddifethodd ei geometreg, a gwelliannau i ffyrdd a'r datblygiadau eraill a anwybyddodd ei diffiniad a'i ffiniau. Mae fframwaith canoloesol y dref yn fregus o hyd. Dylid mynd ati o ddirif i'w gwarchod a'i gwella, a'i hadfer hyd yn oed, lle y bo'n bosibl.

Os yw tirwedd y dref yn cofnodi ei gwreiddiau, mae'r stoc o adeiladau yn adrodd y stori ddiweddarach. Achubwyd y dref rhag dirywio gan ddiwydiant, a chafodd ei thrawsnewid yn raddol. Arweiniodd gwaith adeiladu a thwf o fewn y dref ganoloesol at waith ehangu cyson y tu allan iddi o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nodir cyfnodau amlwg yn natblygiad y dref gan yr adeiladau a welir ynddi, a cheir enghreifftiau da o ddechrau'r 1800au i ganol yr ugeinfed ganrif. Y tu allan i'r dref, mae patrymau datblygiad yn olrhain hanes newid wrth i dwf ysbeidiol arwain at gynllunio systemataidd. Mae llawer o'r datblygiadau hyn wedi cadw nodweddion eu cyfnod a'u hethos ac maent yn haeddu cael eu rheoli mewn modd cydymdeimladol.

Mae newid a datblygiad wedi bod yn ganolog i'r

hanes mwy diweddar hwn, gan arwain at golledion yn ogystal ag enillion. Mae diwydiannau newydd wedi disodli'r hen rai, ac mae'r tai a arferai lenwi lonydd cefn y dref wedi diflannu. Felly nid yw rhai agweddau ar hanes modern y Fflint yn amlwg yn adeiledd ffisegol y dref, ond efallai eu bod wedi goroesi mewn archifau a thystiolaeth.

O'i tharddiad fel tref ganoloesol gynlluniedig, i'w thwf dilynol fel canolfan ddiwydiannol, mae gan y Fflint hanes hir a deinamig. Dyma'r hyn sy'n rhoi cymeriad unigryw i'r dref.

Ffynonellau

Cyfeiriwyd at y mapiau canlynol fel rhan o'r astudiaeth hon:

Mapiau hanesyddol

Swyddfa Cofnodion Sir y Fflint

Mostyn Estate Map of Several Tenements, 1740 (NT/M/28)
Map of Flint, about 1799 (D/DM/50/1)
Flint Castle, 1818 (D/GW/439)
Flint Castle, 1820 (D/L/659)
Flint Parish Enclosure Award, 1830 (QS/DE/23)
Flint Town Enclosure Award, 1830 (copied in 1864 — D/DM/568)
Flint, Land for Sale by Mr Liefchild, 1854 (NT/M/90)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Arolwg Ordnans 2 fodfedd, Surveyor's Drawing, 1834–35
Flint Tithe Map, 1837

Mapiau Arolwg Ordnans

Arolwg Ordnans 1 fodfedd a 4 modfedd (argraffwyd yn Adroddiadau o Gomisiynau Ty'r Cyffredin 1837)
'Old Series' Arolwg Ordnans, 1840 (1 fodfedd)
Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans, 1871 (25 modfedd)
Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans, 1878 (6 modfedd)
Ail Argraffiad yr Arolwg Ordnans, 1899 (25 modfedd)
Ail Argraffiad yr Arolwg Ordnans, 1900 (6 modfedd)
Trydydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans, 1912 (6 modfedd)
Trydydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans, 1912 (25 modfedd)
Pedwerydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans, 1938 (6 modfedd)
Arolwg Ordnans 1969 (1:10,000)
Arolwg Ordnans 1975 (1:25,000)
Ordnance Survey Land Line, about 1996
Arolwg Ordnans 2000 (1:25,000)

Siartiau'r Morlys

Swyddfa Cofnodion Sir y Fflint

Admiralty chart, 1684 (D/BJ/424)
 Admiralty chart, 1732 (D/BJ/425)
 Admiralty chart, 1834/51 (D/LA/76)
 Admiralty chart, 1839 (D/BJ/426)
 Admiralty chart, 1849 (D/BJ/428)
 Admiralty chart, 1849 (D/BJ/429)

Ffotograffau o'r awyr

Get Mapping, tua. 1995 (digidol)

Gwefannau

Mae'r adroddiad hanesyddol manwl a baratowyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys fel rhan o'r astudiaeth hon ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.cpat.org.uk

Ymysg y gwefannau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y Fflint mae'r canlynol (gyda chyfeiriadau gwe ar adeg ysgrifennu):

Flint Through The Ages: www.fflint.co.uk

Swyddfa Cofnodion Sir y Fflint: www.flintshire.gov.uk

GENUKI UK & Ireland Genealogy: www.genuki.org.uk

Mapping Medieval Townscapes: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I, gan K. Lilley, C. Lloyd, ac S. Trick, 2005: <http://ads.ahds.ac.uk/catalogue>

Gwelog: Flint. Your Stories, Photos and Views: www.bbc.co.uk/wales/northeast/sites/flint_town

Ffynonellau argraffedig dewisol

Ceir llyfryddiaeth helaeth sy'n ymwneud â hanes y Fflint yn yr adroddiad a baratowyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys fel rhan o'r astudiaeth hon.

M.W. Beresford, *New Towns of the Middle Ages* (Llundain, 1967).

A. a C. Black, *Black's Picturesque Guide to North Wales* (Caeredin, 1872).

W. J. Britnell, 'Historical background', yn T. J. Miles, 'Flint: Excavations at the Castle and on the Town Defences 1971–1974', *Archaeologia Cambrensis* 145, 67–78.

H. Carter, *The Towns of Wales: A Study in Urban Geography* (Caerdydd, 1965).

D. Defoe, *A Tour Through the Whole Island of Great Britain* (Harmondsworth, 1978).

A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd, 1951).

J. G. Edwards, 'The Building of Flint', *Journal of the Flintshire Historical Society* 12, 5–20.

Y Parch. J. Evans, *The Beauties of England and Wales* (Llundain, 1812).

C. Fiennes, *Through England on a Side Saddle in the Time of William and Mary* (Llundain, 1888).

H. Gastineau, *Wales Illustrated in a Series of Views* (Llundain, 1830).

J. O. Halliwell, *A Short Relation of a Journey through Wales, made in the year 1652, by John Taylor, the Water-Poet* (Llundain, 1859).

W. J. Hemp, *Flint Castle: Official Guide* (Llundain, 1929).

N. W. Jones, 'Dee Estuary Historic Landscape: An Initial Study', CPAT Report 266 (Heb ei gyhoeddi, 1998). J. R. Kenyon, *Medieval Fortifications* (Caerlyr, 1990). S. Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833 a 1849).

W. J. Lewis, *Lead Mining in Wales* (Caerdydd, 1967).

J. E. Lloyd, 'Flintshire Notes: Flint and Mold', *Archaeologia Cambrensis* 95, 57–64.

A. R. Maddock, *History of the Borough of Flint* (1940).


T. J. Miles, 'Flint', *Archaeology in Wales* 11, 23.

T. J. Miles, 'Flint: Excavations at the Castle and on the Town Defences 1971–1974', *Archaeologia Cambrensis* 145, 67–151.

N. Nicolson, ac A. Hawkyard, *The Counties of Britain: A Tudor Atlas by John Speed* (Llundain, 1988).


- T. J. O'Leary, a P. J. Davey, 'Excavations at Pentre Farm, Flint, 1976–77', *Flintshire Historical Society Publications* 27, 138–51.
- T. J. O'Leary, K. Blockley, a C. R. Musson, Pentre Farm, Flint, 1976–81: *An Official Building in the Roman Lead Mining District*, British Archaeological Reports, British Series 217 (Rhydychen, 1989).
- E. Parry, *Cambrian Mirror, or A New Tourist Companion through North Wales* (Llundain, 1847).
- T. Pennant, *A Tour in Wales*, cyfrol. 1 (Llundain, 1784).
- T. Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Llundain, 1796).
- J. A. Petch, 'Excavations at Pentre Ffwrndan, near Flint, in 1932, 1933, and 1934', *Archaeologia Cambrensis* 91, 83–92.
- J. Poole, *Gleanings of the Histories of Holywell, Flint, Saint Asaph, and Rhuddlan: Their Antiquities and Surrounding Scenery, with a Statistical and Geographical Account of North Wales in General* (Treffynnon, 1831).
- N. Powell, 'Do Numbers Count? Towns in Early Modern Wales', *Urban History* 32, 46–67.
- D. Pratt, 'The Topographic Prints of Flintshire', *Flintshire Historical Society Publications* 22, 40–67.
- R. T. Pritchard, 'The Roads and Turnpike Trusts of Flintshire', *Flintshire Historical Society Publications* 21, 75–90.
- E. Rees, *The Itinerary Through Wales and the Description of Wales by Giraldus Cambrensis* (Llundain, 1908).
- P. S. Richards, 'Viscose Rayon Manufacture on Deeside', *Flintshire Historical Society Publications* 23, 75–81.
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Sir Fynwy, *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, Part II: County of Flint* (Llundain, 1912).
- J. Schofield, ac A. Vince, *Medieval Towns* (Llundain, 1994).
- R. J. Silvester, 'Delyn Borough Historic Settlements', CPAT Report 145 (Heb ei gyhoeddi, 1995).
- D. W. Simpson, 'Flint Castle', *Archaeologia Cambrensis* 95, 20–26.
- R. A. Skelton, 'Tudor Town Plans in John Speed's Theatre', *Archaeological Journal* 108, 109–120.
- I. Soulsby, *The Towns of Medieval Wales: A Study of their History, Archaeology and Early Topography* (Chichester, 1983).
- J. Speed, *Theatre of the Empire of Great Britaine* (Llundain, 1611).
- A. Stuart, *The Morphology of Coastal Towns in North-East Wales* (Traethawd ymchwil MA heb ei gyhoeddi, 1959).
- A. J. Taylor, 'The Building of Flint: A Postscript', *Flintshire Historical Society Publications* 17, 34–41.
- A. J. Taylor, 'The King's Works in Wales, 1277–1330', yn R. A. Brown, H. M. Colvin ac A. J. Taylor, *The History of the King's Works, Vol. 1: The Middle Ages* (Llundain, 1963), 293–395.
- A. J. Taylor, 'The Earliest Burgesses of Flint and Rhuddlan', *Flintshire Historical Society Publications* 27, 152–59.
- A. J. Taylor, *The Welsh Castles of Edward I* (Llundain, 1986).
- H. Taylor, *Historic Notices, with Topographical and Other Gleanings Descriptive of the Borough and County Town of Flint* (Llundain, 1883).
- J. Taylor, *A Short Relation of a Journey through Wales* (Llundain, 1659).
- J. A. Timothy, *Old Flint* (1980).
- D. R. Thomas, *The History of the Diocese of St Asaph*, Cyf. 2 (Croesoswallt, 1911).
- Traveller's Companion Series, *The Ancient Market Town of Flint* (Sir y Fflint, 1968).
- C. J. Williams, *Industry in Clwyd: An Illustrated History* (Penarlâg, 1986).
- H. P. Wyndham, *A Gentleman's Tour through Monmouthshire and Wales* (Llundain, 1794).

Troednodiadau
1 Ardal yr Astudiaeth




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

2 Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

3 Y Fflint yn 1610: John Speed (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)




4 Y Fflint yn 1871: Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (25 modfedd)

© a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2009).



5 Y Fflint yn 1912: Trydydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans (25 modfedd)

© a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2009).




6 Y Fflint yn 1938: Pedwerydd Argraffiad yr Arolwg Ordnans (6 modfedd)


© a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2009).



7 Safleoedd Cynhanesyddol, Rhufeinig a Chyfnod Canoloesol Cynnar yn y Fflint




8 Safleoedd Canoloesol yn y Fflint




9 Safleoedd Diwydiannol yn y Fflint



10 Pob Ardal â Nodweddion




11 Ardal â Nodweddion Mignen y Fflint




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

12 Ardal â Nodweddion Aber Park




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

13 Ardal â Nodweddion Cornist Park




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall gyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

14 Ardal â Nodweddion Castle Park



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

15 Ardal â Nodweddion Castell y Fflint




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

16 Ardal â Nodweddion Castle Dyke Street-Corporation Street




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

17 Ardal â Nodweddion Canol y Dref




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

18 Ardal â Nodweddion Pen-Goch



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

19 Ardal â Nodweddion Flint Sands




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

20 Ardal â Nodweddion Heol Caer




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

21 Ardal â Nodweddion Pentre Ffwrndan



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

22 Ardal â Nodweddion Maes y Dre



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2009.
ISBN 978-1-85760-271-5
Hawlfraint y Goron 2009.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ